

Effaith Cyllid Rhanbarthol ar Iechyd a Llesiant yng Nghymru

Gweithio tuag at gymunedau mwy cadarn, cyfartal a llewyrchus



Awduron

Mischa van Eimeren, Laura Morgan, Sumina Azam a Mark Bellis

Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydwethredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Diolchiadau

Hoffai'r awduron ddiolch i'r holl gyfranogwyr a roddodd o'u hamser i gael eu cyfweld a/neu a gymerodd ran yng nghyfarfodydd y grwpiau ffocws. Heb eu mewnbwn a'u dirnadaeth, ni fyddai'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl.

Hoffem hefyd ddiolch i Tim Simms am baratoi a hwyluso trafodaethau'r grwpiau ffocws.

Rydym yn ddiolchgar i'n cydweithwyr, Louisa Petchey am ei holl fewnbwn yn ystod gwahanol gamau'r gwaith ymchwil ac i Vicky Smith am ddarparu cymorth i'r prosiect.

Ynglŷn â'r Adroddiad Hwn

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar effaith colli Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar iechyd a llesiant a'r risgiau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil cynllun newydd.

Ei nod yw hysbysu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yng Nghymru, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â dyrannu a rheoli cynlluniau cyllido rhanbarthol yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn cynnwys darlun allweddol o bwysigrwydd presennol Cronfeydd Strwythurol yr UE i iechyd a llesiant ardaloedd lleol gan ganolbwyntio ar wahanol grwpiau poblogaeth. Mae'n trafod yr effaith bosibl ar iechyd a llesiant pan ddaw cyllid yr UE i ben ac yn nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer cyllid rhanbarthol yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar adolygiad helaeth o lenyddiaeth a mewnbwn gan lywodraeth leol, Cyrff Anllywodraethol a chynrychiolwyr diwydiant mewn dwy ardal leol wahanol yng Nghymru.

Ymwadiad

Cyflawnwyd y gwaith yn bennaf cyn dyfodiad y pandemig COVID-19; serch hynny, gellir defnyddio'r adroddiad hwn i lywio'r ymateb i COVID-19 a'r adferiad ohono, ac felly caiff ei gyhoeddi gyda hynny mewn golwg.

ISBN 978-1-78986-154-600

© 2021 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL)

www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a'r diwyg yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	4
1. Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru	6
Cefndir	6
Effaith	6
2. Nodau'r Ymchwil	9
3. Cefndir yr Ymchwil	9
4. Methodoleg yr Ymchwil	10
Proffil y sefydliadau a gymerodd ran a'u cynrychiolwyr	10
Dull Mini-Delphi	10
Adolygiad o Lenyddiaeth	11
5. Canfyddiadau'r Ymchwil (1) – Cronfeydd Strwythurol yr UE	12
Cyfranogwyr a sefydliadau	12
Cyllid Strwythurol yr UE - Effaith Gymdeithasol ac Economaidd	13
6. Canfyddiadau'r Ymchwil (2) - Cyllid rhanbarthol yn y dyfodol ac ymgysylltu â chymunedau lleol	16
Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU: Datblygiadau polisi Llywodraeth y DU	16
Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU: Datblygiadau polisi Llywodraeth Cymru	17
Newidiadau i gynlluniau cyllido rhanbarthol yn y dyfodol a allai wella iechyd a llesiant	18
Tystiolaeth yr Astudiaeth	18
Blaenoriaethau yn y dyfodol i fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd	19
Blaenoriaethau cyllido yn y dyfodol ar gyfer grwpiau poblogaeth	21
Ymgysylltu â chymunedau lleol yn y dyfodol mewn perthynas â chyllid rhanbarthol	23
Proses weinyddol cyllid rhanbarthol yn y dyfodol	24
7. Trafodaeth	26
8. Casgliad	27
9. Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol	28
Atodiad 1 – Gweithrediad cronfeydd strwythurol yr UE a dyraniad Cymru o'r gyllideb	29
Atodiad 2 - Y sefydliadau a gymerodd ran a'u cynrychiolwyr	31
Atodiad 3 – Holiadur dros y ffôn	32
Atodiad 4 - Rhestr Wirio Penderfynyddion Iechyd a Llesiant	40
Atodiad 5 – Rhestr Wirio Grwpiau Poblogaeth	41
Atodiad 6 - Gweithdy Cysyniad	42
Atodiad 7 - Holiadur ar ddiwedd y gweithdy	45
Atodiad 8 - Protocol yr ymchwil	47
Cyfeiriadau	48

Crynodeb Gweithredol

Nod yr Ymchwil

- Nod y prosiect hwn yw gwella'r ddealltwriaeth o effaith dirwyn mynediad at Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd i ben ar iechyd a llesiant ardaloedd lleol yng Nghymru.

Cefndir

- Mae Cronfeydd Strwythurol yr UE wedi bod yn rhan bwysig o fuddsoddiad rhanbarthol Cymru ac wedi chwarae rhan allweddol o ran llunio dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â datblygu economaidd, buddsoddi mewn seilwaith, adfywio cymunedol, ymchwil a datblygu a chynyddu lefelau sgiliau.
- Derbyniodd Cymru bron i bum gwaith cymaint o gyllid Cronfeydd Strwythurol yr UE y pen na chyfartaledd y DU. O dan gylch cyllido 2014-2020, roedd Cymru'n gymwys i gael tua £2.1 biliwn. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod gan ranbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd y Cynnyrch Mewnwladol Gros isaf y pen o unrhyw ran o'r DU.
- Mae rhaglen cyllid rhanbarthol i olynu Cyllid Strwythurol yr UE, pwy bynnag fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am ei gweinyddu, yn cyflwyno cyfleoedd a risgiau i iechyd a llesiant ardaloedd difreintiedig yng Nghymru.
- Canfu Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) mewn perthynas â Brexit yng Nghymru y gallai dirwyn Cyllid Strwythurol yr UE i ben arwain at oblygiadau andwyol posibl yn y tymor canolig i'r hirdymor i gydlyniant cymunedol, datblygu rhanbarthol, economaidd a buddsoddi mewn seilwaith. Yn yr adroddiad HIA, tynnodd sawl arbenigwr sylw at y posibilrwydd y byddai cymunedau o amddifadedd yn dioddef anfantais anghymesur wrth i Gronfeydd Strwythurol yr UE ddod i ben, a allai arwain at ragor o anghydraddoldebau.

Methodoleg

- Roedd yr astudiaeth ymchwil yn cynnwys ceisio barn cyfranogwyr o sefydliadau cymunedol a llywodraeth leol o ddwy ardal yng Nghymru. Roedd un ardal yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n cael ei dosbarthu gan y Comisiwn Ewropeaidd yn 'Rhanbarth Llai Datblygedig' gan fod ei chynnyrch domestig gros y pen yn llai na 75% o gyfartaledd yr UE. Roedd yr ail ardal yn Nwyrain Cymru, sy'n cael ei dosbarthu'n 'Rhanbarth Mwy Datblygedig' lle mae cynnyrch domestig gros y pen yn fwy na 90% o gyfartaledd yr UE. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda chyfranogwyr unigol rhwng mis Mai a mis Mehefin 2019. Dilynwyd y rhain gan ddau grŵp ffocws manwl ym mis Mehefin 2019.

Canfyddiadau'r astudiaeth: Effaith Cyllid Strwythurol yr UE ar iechyd a llesiant

- Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn y ddwy ardal yn cytuno bod Cronfeydd Strwythurol yr UE, yn gyffredinol, yn "weddol lwyddiannus" o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau cymdeithasol ac economaidd yn eu hardal ac wedi cael effaith gadarnhaol ar ddylanwadau economaidd, cymdeithasol a chymunedol ar iechyd, gan gynnwys lleihau trais domestig, gwella perthnasoedd teuluol a mynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

- Roedd grwpiau penodol a oedd wedi elwa ar Gyllid Strwythurol yr UE yn cynnwys plant a phobl ifanc, pobl hŷn, grwpiau di-waith, a grwpiau sy'n wynebu risg uwch o ddioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall, megis grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
- Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn pryderu ynghylch y ffaith bod y cyllid yn dod i ben, ond gan dynnu sylw hefyd at gyfleoedd ar gyfer gwella o dan gynllun cyllido newydd. Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod prosesau gweinyddol Cronfeydd Strwythurol yr UE yn fiwrocraidd, yn anhyblyg, wedi'u datgysylltu oddi wrth gymdeithas/cymunedau lleol ac nad oeddent bob amser yn targedu'n effeithiol yr ardaloedd a'r cymunedau y bwriadwyd iddynt eu cynorthwyo.

Canfyddiadau'r astudiaeth: Blaenoriaethau iechyd a llesiant ar gyfer cyllid rhanbarthol yn y dyfodol

- Yn ôl y cyfranogwyr, mae'n bwysig bod y cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau ar gyllid rhanbarthol yn cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru ac, wedi hynny, ei ddatganoli ymhellach i lefel rhanbarthol a chymunedol er mwyn nodi'r rhai sydd â'r angen mwyaf, gan gynnwys cymunedau anodd eu cyrraedd, a darparu atebion wedi'u teilwra i'w hanghenion iechyd a llesiant.
- Ar y cyfan, cyfeiriodd y cyfranogwyr at y cysylltiadau cryf rhwng gwahanol benderfynydion cymdeithasol iechyd ac roeddent yn ei chael hi'n anodd blaenoriaethu cyllid rhanbarthol ar gyfer penderfynydd penodol. Roeddent yn teimlo mai dull integredig o ymdrin â chyllid rhanbarthol yn y dyfodol oedd y ffordd orau o fynd i'r afael ag anghenion iechyd a llesiant cymunedau difreintiedig.
- Roedd y cyfranogwyr hefyd yn ei chael hi'n anodd blaenoriaethu unrhyw grŵp poblogaeth ar gyfer cyllid rhanbarthol yn y dyfodol. Yn yr achosion hynny pan gyfeiriodd y cyfranogwyr at un grŵp penodol, fe wnaethant sôn yn bennaf am blant a phobl ifanc, grwpiau incwm isel a grwpiau sy'n wynebu risg uwch o wahaniaethu, fel y gymuned LHDTG+, pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl ag anableddau a grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
- Er bod nifer o ddulliau gwahanol yn bodoli ar hyn o bryd i ymgysylltu â chymunedau lleol, gan gynnwys grwpiau ffocws, arolygon ac ymgynghoriadau, cytunodd y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn y ddwy ardal y gellid gwneud mwy i gynnwys y gymuned leol yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddiad rhanbarthol. Roedd y dulliau a awgrymwyd yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol, arolygon ar-lein a grwpiau ffocws rhithwir.
- Mynegodd y cyfranogwyr gefnogaeth eang i symleiddio'r prosesau cyllid rhanbarthol yn y dyfodol.

Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

- Mae angen mwy o ffocws ar bartneriaethau ystyrlon â rhanddeiliaid o Gymru wrth wneud penderfyniadau ar gyllid rhanbarthol er mwyn sicrhau bod prosiectau'n mynd i'r afael â gwahaniaethau economaidd a chymdeithasol ac yn gwneud gwahaniaeth i iechyd a llesiant cymunedau difreintiedig ledled Cymru.
- Bydd prosesau symlach yn sicrhau gwell gwasanaethau ar y rheng flaen ac yn gwneud cynlluniau cyllido yn fwy hygyrch i sefydliadau llai, yn enwedig yn y trydydd sector. Mae'n bwysig bod y gwaith craffu angenrheidiol a ddylai gyd-fynd ag unrhyw gynllun cyllido cyhoeddus yn parhau.
- Mae cyllid wedi'i dargedu yn allweddol i barhau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chefnogi cymunedau sydd ar y cyrion. Yn unol â hyn, gellir cynnal y themâu trawsbynciol, sef cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd. Wrth gynllunio cronfeydd newydd, mae angen rhoi ystyriaeth i'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

1.

Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru

Cefndir

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal yr astudiaeth hon er mwyn deall yn well effaith dirwyn mynediad at Gronfeydd Strwythurol yr UE i ben ar iechyd a llesiant ardaloedd lleol, a chyflwyno blaenoriaethau ar gyfer rhaglenni cyllido rhanbarthol yn y dyfodol i gefnogi iechyd a llesiant pobl a chymunedau yng Nghymru yn well.

Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), y cyfeirir atynt gyda'i gilydd drwy gydol yr adroddiad hwn fel Cronfeydd Strwythurol yr UE neu Gyllid Strwythurol yr UE. Mae'r cronfeydd yn rhan o'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIF), sy'n cefnogi datblygiad economaidd ar draws gwledydd yr UE a'u rhanbarthau sy'n rhan ohonynt¹. Yr ERDF a'r ESF yw cronfeydd mwyaf yr ESIF, a rhyngddynt maent yn cyfrif am dros 60% o'r cyllid dros y cyfnod 2014-2020 yng Nghymru a gweddill y DU (Senedd y DU, 2020a).

Ar gyfer ERDF ac ESF, caiff cyllid ei ddyrannu ar sail blaenoriaethau buddsoddi a bennir gan yr UE heb fawr o ryddid i fuddiolwyr, gan gynnwys Cymru, wyro oddi wrthynt. Ar gyfer ERDF, y blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod 2014-2020 oedd ymchwil; yr agenda ddigidol; cymorth i fusnesau bach a chanolig; a'r economi carbon isel. Y pedwar maes buddsoddi a oedd yn flaenoriaeth o ran cyllid ESF oedd hybu cyflogaeth a chefnogi symudedd llafur; hybu cynhwysiant cymdeithasol a brwydro yn erbyn tlodi; buddsoddi mewn addysg, sgiliau a dysgu gydol oes; a gwella gallu sefydliadol a gweinyddiaeth gyhoeddus effeithlon (Sefydliad Ymchwil Economi Wleidyddol Sheffield, 2016).

Mae Atodiad 1 yn rhoi trosolwg manylach o weithrediad Cronfeydd Strwythurol yr UE a dyraniad y gyllideb i Gymru ar gyfer y cyfnod 2014-2020.

Gyda holl gyllid ERDF 2014-2020 ac ESF eisoes wedi'i ddyrannu, ac wrth i'r rhaglenni gyrraedd y camau cyflawni olaf, prin yw'r cyfleoedd i sefydliadau wneud cais am gyllid ar gyfer prosiectau newydd a fyddai'n gallu cyflawni a chael eu cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2023. Fodd bynnag, bydd prosiectau sydd eisoes ar y gweill yn parhau i gael cyllid gan yr UE nes y bydd y rhaglenni'n cau yn 2023 (Llywodraeth Cymru, 2019a). Yn dilyn ymadawriad y DU â'r UE ('Brexit'), ni fydd y DU yn cymryd rhan yn rhaglen yr UE a fydd yn olynu rhaglen cyllid rhanbarthol 2014-2020.

Gallai tynnu Cyllid Strwythurol yr UE yn ôl arwain at newidiadau sylweddol i gyllid rhanbarthol yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU. Effeithir yn arbennig ar Gymru oherwydd y symiau mawr o arian a dderbynnir gan yr UE (Ffigur 1), yn bennaf oherwydd bod gan ranbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd y cynnyrch domestig gros isaf y pen o unrhyw ran o'r DU, sef 68% o gyfartaledd yr UE (Ymchwil y Senedd, 2018). Derbyniodd Cymru gyfanswm o €458 y pen o gyllid strwythurol gan yr ESF a'r ERDF ar gyfer y cyfnod 2014-2020. Mae hyn dros bedair gwaith a hanner cymaint â chyfartaledd y DU; o gymharu mae'r cyllid yn Lloegr, ar gyfartaledd, yn €76 y pen.


Effaith

Gallai tynnu Cyllid Strwythurol yr UE yn ôl arwain at newidiadau sylweddol i gyllid rhanbarthol yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU. Mae Cymru'n debygol o gael ei heffeithio'n sylweddol oherwydd y symiau mawr o arian y mae wedi'u derbyn yn hanesyddol gan yr UE (Ffigur 1). Y pen, derbyniodd Cymru gyfanswm o €458 o gyllid strwythurol gan yr ESF a'r ERDF ar gyfer y cyfnod 2014-2020. Mae hyn bron bum cymaint â chyfartaledd y DU; o gymharu mae'r cyllid yn Lloegr, ar gyfartaledd, yn €76 y pen.

¹ Heblaw am Gronfeydd Strwythurol yr UE, mae ESIF yn cynnwys Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) a Chronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD).

Mae'r gyfran uwch hon o gyllid i'w briodoli i'r ffaith bod cynnyrch domestig gros y pen yng Nghymru yn gyson is na chyfartaledd yr UE. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod Cymru wedi wynebu heriau economaidd disyflyd ers sawl degawd, yn bennaf oherwydd etifeddiaeth o ddirywiad diwydiannol. Mae hyn yn amlwg iawn mewn rhai rhanbarthau yng Nghymru, yn fwyaf nodedig Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sydd â chynnyrch domestig gros y pen o 68% o gyfartaledd yr UE (Ymchwil y Senedd, 2018), ac sydd ymhlith rhanbarthau tlotaf y DU (Senedd y DU, 2020). Yn gyffredinol, nid yw ardaloedd gwledig yn perfformio'n dda yng Nghymru o safbwynt economaidd, ac mae lefelau'r enillion ymhlith yr isaf yn y DU. Mae Cymru hefyd yn wynebu heriau ledled y wlad, megis y gyfradd gymharol isel o'r boblogaeth o oedran gweithio sydd â lefelau sgiliau canolraddol ac uchel (57%.9) o gymharu â gweddill y DU (60.3%) (The Productivity Institute, 2021).

Ffigur 1. Cyllid ESI yn y DU



Ffynhonnell: Y Comisiwn Ewropeaidd, Manylion Cynllun Ariannol ESIF 2014-2020, adalwyd 5 Mai 2020; troswyd i sterling ar gyfraddau cyfnewid Mai 2020

Er y flwyddyn 2000, mae Cyllid Strwythurol yr UE wedi cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â llawer o'r materion cymdeithasol ac economaidd rhanbarthol hyn ac i gefnogi llawer o'r grwpiau poblogaeth mwyaf difreintiedig fel pobl anabl, pobl hŷn ac iau a chymunedau grwpiau lleiafrifoedd ethnig (Broughton et al., 2019).

Mae Cyllid yr UE wedi chwarae rhan arwyddocaol yn null Llywodraeth Cymru o ymdrin â datblygu economaidd, gan fod yn sail i fuddsoddi mewn seilwaith, adfywio cymunedol, ymchwil a datblygu a gwella sgiliau (Tinker, 2018). Mae'r prosiectau a ariennir yn amrywio o adfywio canol trefi; trosglwyddo technoleg a chydweithrediad prifysgol-menter; cymorth i fentrau cymdeithasol; a chymorth mentora a chyflogaeth ar gyfer y rhai sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod maith a grwpiau sy'n economaidd anweithgar.

Fodd bynnag, nid yw pob rhanddeiliad lleol yn cytuno bod Cyllid Strwythurol yr UE wedi cyflawni'r hyn y bwriadwyd iddo ei gyflawni pan gafodd ei gyflwyno yn y flwyddyn 2000 ac maent yn aml yn cyfeirio at y cronfeydd fel rhai nad ydynt yn darparu atebion cynaliadwy hirdymor i'r problemau dan sylw. Mae sawl rhan o Gymru yn parhau i wynebu heriau cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio ar iechyd a llesiant poblogaethau sy'n agored i niwed. Yn ôl Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB)

Cymru, mae'r ffaith bod Cymru wedi parhau i fod yn gymwys ar gyfer cyllid ar ôl bron i 20 mlynedd yn awgrymu, o ran ei phrif resymeg, bod cyllid yr UE wedi bod yn aneffeithiol o ran helpu Cymru i 'gydgyfeirio' yn economaidd â Gorllewin Ewrop i'r graddau a ragwelwyd (FSB Cymru a ddyfynnir yn Senedd y DU, 2020).

Gwnaed newidiadau i Gyllid Strwythurol yr UE dros amser yn dilyn beirniadaeth o ddulliau gweithredu cynnar. Er enghraifft, beirniadaeth gyson o Gyllid Strwythurol yr UE oedd nad oedd ganddo ddigon o allu i brofi ei effeithiolrwydd a'i werth am arian (Polverari, 2016), yn ogystal ag absenoldeb dull gweithredu mwy effeithlon sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2016). Mae hyn wedi arwain at newidiadau sylweddol yn y rhaglen, gyda rhaglen 2014-2020 yn symud o werthuso gweithrediad prosiect i fesur ei effeithiau, yn ogystal â gwell prosesau llywodraethu a dull gweithredu mwy strategol yn gyffredinol (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2015).

Fel y nodwyd uchod, nid yw'r berthynas yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit, fel y nodir yn y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad rhwng yr UE a'r DU, yn caniatáu i'r DU, na Chymru, barhau i gael mynediad at yr hyn a fydd yn olyn Cronfeydd Strwythurol yr UE. Yn gynnar ym mhroses Brexit, addawodd Llywodraeth y DU sefydlu Cronfa Ffyniant Gyffredin i ddisodli cyllid yr UE (Llyfrgell Tŷ'r Gyffredin, 2021). Darparwyd rhagor o fanylion yn ddiweddar am sut y byddai'r Gronfa'n cael ei rheoli neu ei dyrannu ochr yn ochr â Phapur Gwyn ar Ffyniant Bro Llywodraeth y DU ar ffurf canllawiau cyn lansio'r gronfa (Llywodraeth y DU, 2022a). Yn ôl Llywodraeth Cymru, byddai methu â disodli hyn gyda chyllid cyfatebol yn cael effaith negyddol sylweddol ar economi Cymru a phobl Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017a).

Gallai hinsawdd economaidd lai ffafriol waethygu effaith llai o fuddsoddiad gan yr UE. Mae economegwyr blaenllaw (Ries et al., 2020) yn cytuno'n gyffredinol fod Brexit eisoes wedi arwain at ddirywiad economaidd, neu y bydd yn gwneud hynny o leiaf yn y tymor byr; ac y bydd hyn yn arwain at ddiweithdra uwch, twf is, lleihad mewn buddsoddiad gan fusnesau a chyllid cyhoeddus, cynnydd mewn chwyddiant a cholledion mewn incwm cenedlaethol cyfartalog. Mae'r pandemig COVID-19 wedi rhoi pwysau ychwanegol ar economi'r DU yn gyffredinol, yn ogystal ag ar gyflogaeth, buddsoddiad a chwyddiant (Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, 2021). Dengys y dystiolaeth mai'r bobl dlotaf a'r rhai sydd eisoes yn profi annhegwch sydd wedi dioddef fwyaf yn sgil y pandemig a'r ymateb cysylltiedig (Green et al, 2020; Marmot et al, 2020).

2. Nodau'r Ymchwil

Prif nod y prosiect hwn yw:

- deall yr hyn y bydd dirwyn mynediad at Gronfeydd Strwythurol yr UE i ben yn ei olygu i iechyd a llesiant ardaloedd lleol yng Nghymru.

Yr amcanion yw:

- deall barn sefydliadau cymunedol a llywodraeth leol ar sut y mae Cronfeydd Strwythurol yr UE a fuddsodwyd yn eu hardaloedd lleol wedi effeithio ar benderfynyddion cymdeithasol iechyd, gan gynnwys ymhlith grwpiau poblogaeth sy'n agored i niwed;
- deall yr effaith/effeithiau posibl ar iechyd a llesiant pobl a chymunedau ar ôl i Gronfeydd Strwythurol yr UE ddod i ben;
- ar sail y canfyddiadau yn y ddwy ardal dan sylw, trafod goblygiadau posibl dirwyn Cronfeydd Strwythurol yr UE i ben i ardaloedd eraill yng Nghymru;
- meithrin dealltwriaeth o sut y gellir gweinyddu unrhyw gyllid yn y dyfodol yn well i gefnogi iechyd a llesiant mewn cymunedau lleol;
- nodi sut y gellir cynnwys cymunedau lleol yn well wrth ddyrannu cyllid yn y dyfodol.

3. Cefndir yr Ymchwil

Yn 2019, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yr adroddiad *Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru: Ymagwedd Asesu'r Effaith ar Iechyd* (Green et al., 2019). Dilynwyd hyn gan adolygiad cyflym a diweddariad yn ddiweddarach yn y flwyddyn (Petchey et al., 2019). Roedd y ddau adroddiad yn ystyried y risgiau uniongyrchol ac anuniongyrchol i iechyd a llesiant pobl Cymru yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, a chyfleoedd ar eu cyfer. Roedd y pynciau'n amrywio o fynediad at feddyginiaethau, gofal cymdeithasol, materion cyflogaeth, bwyd, tlodi a cholli Cyllid yr UE. Roedd yr adroddiad hefyd yn cyflwyno rhestr o feysydd gweithredu yn y dyfodol i'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus eraill eu monitro a mynd i'r afael â nhw. Un o'r meysydd a nodwyd oedd y byddai colli cyllid yr UE yn arwain at:



botensial arwyddocaol ar gyfer llai o fynediad i ffrydiau cyllid allweddol (strwythurol, ymchwil a datblygu ac amaethyddol) ar gyfer Cymru. Mae angen ymgysylltu gweithredol i ddylanwadu ar fodolau cyllid a rheolau ar gyfer mynediad yn y dyfodol"

Proffil y sefydliadau a gymerodd ran a'u cynrychiolwyr

Gofynnwyd am farn cynrychiolwyr o sefydliadau cymunedol a sefydliadau llywodraeth leol mewn dwy ardal â demograffeg debyg mewn gwahanol rannau o Gymru. Roedd un o'r ardaloedd hyn yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (Ardal A) a'r llall yn Nwyrain Cymru (Ardal B). Gan ddefnyddio dull mini-Delphi, fe wnaethom holi cynrychiolwyr sefydliadau cymunedol a llywodraeth leol yn y ddwy ardal am effaith y cyllid presennol ar eu cymunedau lleol a'u gobeithion a'u disgwyliadau ar gyfer unrhyw gyllid rhanbarthol newydd yn eu hardaloedd lleol yn y dyfodol a'r ffordd orau o ddefnyddio'r arian hwn er mwyn sicrhau budd i iechyd a llesiant.

Dewiswyd y ddwy ardal ar sail eu gwahanol ddsbarthiadau yn yr UE a lefelau Cyllid Strwythurol yr UE. Mae Ardal A yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a chafodd ei dosbarthu gan yr UE fel 'Rhanbarth Llai Datblygedig' gan fod ei chynnyrch domestig gros y pen yn llai na 75% o gyfartaledd yr UE. Mae Ardal B yn Nwyrain Cymru a chafodd ei dosbarthu fel 'Rhanbarth Mwy Datblygedig' lle roedd y cynnyrch domestig gros y pen yn fwy na 90% o gyfartaledd yr UE. Darparodd y gwahaniaethau hyn y sail ar gyfer dadansoddiad cymharol gan fod Ardal A yn derbyn llawer mwy o gyllid yr UE o gymharu ag ardal B yn dilyn y dosbarthiad uchod.

Dewiswyd sefydliadau ym mhob ardal ar sail eu cysylltiadau a'u rhyngweithio clos â'u cymuned leol yn ogystal â'r disgwyliad y gallent roi barn wybodus ar oblygiadau tynnu Cronfeydd Strwythurol yr UE yn ôl i iechyd a/neu grwpiau poblogaeth penodol yn eu hardal leol. Nid ystyriwyd a oedd y sefydliad yn derbyn neu wedi derbyn cyllid o Gronfeydd Strwythurol yr UE yn y gorffennol, er mwyn darparu amrywiaeth o safbwyntiau.

Gwahoddwyd tua 40 o sefydliadau (20 o bob ardal) i rannu eu barn ar oblygiadau tynnu Cronfeydd Strwythurol yr UE yn ôl. Cytunodd cyfanswm o 20 o gynrychiolwyr o 14 o sefydliadau yn Ardal A ac 13 o gyfranogwyr o 13 o sefydliadau yn Ardal B i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Mae Atodiad 2 yn cynnwys proffil o'r sefydliadau a gymerodd ran a rôl broffesiynol y cyfranogwr.

Dull Mini-Delphi

Gwahoddwyd y cyfranogwyr i gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil gyfranogol yn seiliedig ar y dull mini-Delphi, sy'n amrywiad ar y dull Delphi helaethach. Gall y dull hwn gynhyrchu safbwyntiau sydd wedi'u hystyried yn fwy gofalus na'r hyn a gynhyrchir drwy ddefnyddio arolygon un rownd ac yn aml mae wedi arwain at ddata a/neu ddarlun perthnasol newydd (Pan, 1996). Mae'r dull mini-Delphi yn cynnwys cyfweiliadau unigol, ac yna weithgaredd grŵp fel gweithdy lle mae'r cyfranogwyr yn trafod eu hatebion cyfunol ond gan gadw eu hymatebion gwreiddiol yn ddiennw.

Yn yr astudiaeth hon, ychwanegwyd trydydd cam ar ffurf holiadur ar ddiwedd y gweithdy. Fe wnaeth yr holiadur gadarnhau effaith y rhyngweithio rhwng y cyfranogwyr yn y gweithdy drwy ofyn a yw eu barn wedi newid, i roi cyfle olaf i gyfranogwyr rannu unrhyw syniadau newydd yn ddiennw ac i werthuso ansawdd y gweithdy.

1. Holiadur dros y ffôn

Roedd yr holiadur dros y ffôn yn cynnwys cyfuniad o 29 o gwestiynau ansoddol a meintioliol (gweler Atodiad 3). Roedd yr ymatebion meintioliol aml-ddewis ar ffurf graddfa Likert 4, 6 neu 7 pwynt wedi'u

hategu gan sylwadau ansoddol dewisol pellach. Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio ar arwyddocâd presennol Cronfeydd Strwythurol yr UE i iechyd a llesiant, ac effaith ddisgwyliedig y ffaith bod y cronfeydd hyn yn dod i ben ar benderfynyddion cymdeithasol iechyd (gweler Atodiad 4) a gwahanol grwpiau poblogaeth (gweler Atodiad 5). Roedd cwestiynau eraill yn canolbwyntio ar farn cyfranogwyr ar ble y dylid canolbwyntio cyllid ym maes iechyd a llesiant; sut y gallai cymunedau gael eu cynnwys yn well wrth ddyrannu'r cyllid hwn; ac ar ba lefel weinyddol y dylid rheoli cynllun newydd yn y dyfodol. Bu'r ymatebion i'r holiadur yn sail i drafodaethau mewn dau weithdy yn ail gam yr ymchwil.

II. Gweithdy Cyfranogol

Gwahoddwyd cyfranogwyr a oedd wedi ymateb i'r holiadur dros y ffôn i gymryd rhan mewn gweithdy pedair awr wedi'i hwyluso'n broffesiynol i ymchwilio ymhellach i'w barn drwy drafodaethau â chyfranogwyr eraill yn yr astudiaeth. Lle roedd mwy nag un cyfranogwr o sefydliad wedi cymryd rhan yn y cyfweiliad dros y ffôn, gofynnwyd iddynt ddarparu un cynrychiolydd i rannu eu barn gyfunol yn y gweithdy. Mewn un achos, nid oedd y cyfranogwr a gymerodd ran mewn cyfweiliad dros y ffôn yn gallu mynychu'r gweithdy ac fe'i cynrychiolwyd gan gydweithiwr nad oedd wedi bod yn rhan o'r astudiaeth o'r blaen.

Mynychodd pum cyfranogwr y gweithdy yn Ardal A ac wyth yn Ardal B. Ceir disgrifiad llawn o gysyniad ac amcanion y gweithdy yn Atodiad 6.

III. Holiadur ar Ddiwedd y Gweithdy

Ar ddiwedd pob sesiwn gweithdy, cwblhaodd y cyfranogwyr ail holiadur cyfrinachol (gweler Atodiad 7) gan ddarparu trydedd rownd o ymatebion. Roedd yr holiadur yn cynnwys saith cwestiwn i nodi a oedd barn y cyfranogwr wedi newid ac i rannu unrhyw sylwadau ychwanegol ar ôl cymryd rhan yn y gweithdy. Roedd dau o'r saith cwestiwn yn rhoi cyfle i'r cyfranogwyr roi adborth ar ansawdd y gweithdy.

Adolygiad Llenyddiaeth

Cynhaliwyd adolygiad cyflym o lenyddiaeth i nodi:

- yr effaith bosibl ar iechyd a llesiant yn sgil dirwyn y cyllid economaidd a/neu gymdeithasol hirdymor sylweddol presennol i ben;
- effeithiau economaidd-gymdeithasol posibl dirwyn Cronfeydd Strwythurol yr UE i ben yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE;
- barn ar gynllun(iau) cyllido rhanbarthol newydd, gan gynnwys ei amcanion cyffredinol, ei gweinyddiaeth, a pha grwpiau poblogaeth penodol a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd y dylai fynd i'r afael â nhw.

Mae Atodiad 8 yn cynnwys y protocol ymchwil sy'n nodi pa fath o gyhoeddiadau a adolygwyd.

5.

Canfyddiadau'r Ymchwil (1) – Cronfeydd Strwythurol yr UE

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi canlyniadau'r astudiaeth sy'n edrych ar effaith ganfyddedig a gweithrediad Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r adrannau'n dechrau gyda chanfyddiadau'r ymchwil cyfranogol ac yna adolygiad o'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â'r pwnc penodol.

Cyfranogwyr a sefydliadau

Holwyd y cyfranogwyr am eu profiadau nhw, yn ogystal â phrofiadau eu sefydliadau o Gronfeydd Strwythurol presennol yr UE a ffrydiau cyllido amgen posibl yng Nghymru yn y dyfodol, a rôl iechyd a llesiant o fewn rôl broffesiynol a sefydliad y cyfranogwyr. Mae Tabl 1 yn cymharu'r canfyddiadau ar gyfer y ddwy ardal.

Tabl 1: Trosolwg o'r sefydliadau a gymerodd ran

	Themâu *	Ardal A - Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Ardal B – Dwyrain Cymru
Cyfranogwyr	Materion cymdeithasol a/neu economaidd mewn agwedd bwysig ar eich swydd	Pwysig neu bwysig iawn	Pwysig neu bwysig iawn
Sefydliadau	Sefydliad neu unrhyw un o'i weithgareddau neu brosiectau a ariennir ar hyn o bryd gan Gronfeydd Strwythurol yr UE neu a dderbyniodd gyllid yr UE o'r cynllun hwn yn y gorffennol	8 o blith 14 o sefydliadau	6 o blith 13 o sefydliadau
Cyfranogwyr	Pa mor gyfarwydd ydynt â phwrpas a chwmpas Cronfeydd Strwythurol yr UE yn gyffredinol	Gweddol gyfarwydd	Gweddol gyfarwydd / Rhannol gyfarwydd
Sefydliadau	Canolbwyntio ar iechyd a llesiant	Yn canolbwyntio ar grwpiau poblogaeth penodol neu benderfynyddion cymdeithasol iechyd	Yn canolbwyntio ar holl benderfynyddion cymdeithasol grwpiau iechyd a phoblogaeth

*(yn seiliedig ar gwestiynau 3,7,18,20 a 21 y cyfweiliad – gweler Atodiad 3)

Dywedodd yr holl gyfranogwyr fod iechyd a llesiant yn agwedd bwysig neu bwysig iawn ar eu rôl broffesiynol o fewn y sefydliad. Yn ogystal, mae cyfran debyg o sefydliadau yn y ddwy ardal wedi elwa o Gronfeydd Strwythurol yr UE dros y deng mlynedd diwethaf.

Roedd yr atebion yn amrywio o ran y meysydd ffocws sefydliadol yn ymwneud ag iechyd a llesiant. Yn Ardal A, roedd gweithgareddau sefydliadol yn cael eu targedu'n amlach tuag at grwpiau poblogaeth penodol neu benderfynyddion cymdeithasol penodol iechyd, ond yn Ardal B roedd gweithgareddau sefydliadol yn fwy eang, wedi'u hanelu at holl benderfynyddion cymdeithasol iechyd a/neu grwpiau poblogaeth. Yn ogystal, cafodd mwy o sefydliadau o fewn ardal A fudd o Gronfeydd Strwythurol yr UE ac roeddent ychydig yn fwy cyfarwydd â Chronfeydd Strwythurol yr UE o gymharu ag Ardal B.

O ran sefydliadau nad oeddent yn derbyn cyllid o Gronfeydd Strwythurol yr UE, roedd ffynonellau cyllido eraill yn cynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol neu gynlluniau cyllido cenedlaethol, rhanbarthol neu leol eraill fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol neu sefydliadau elusennol gwahanol.



Er bod y rhaglenni ar waith... bydd yr effaith wedi bod yn llawer mwy, ond mae'r rhan fwyaf o'r rhaglenni hyn bellach wedi dod i ben ac mae'r ystadegau, yn y bôn, yr un peth." (Cyfranogwr, Ardal A)



Mae'n beth mawr iawn i ni. Mae iechyd meddwl yn ganran uchel iawn o'r galwadau a gawn. Os oes aelod o staff wedi'i drosglwyddo o ran arall o Gymru i [...] yn arbennig, dydyn nhw ddim yn gallu credu faint o alwadau yn y categori iechyd meddwl rydyn ni'n eu cael." (Cyfranogwr, Ardal B)

Cyllid Strwythurol yr UE - Effaith Gymdeithasol ac Economaidd

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn Ardal A o'r farn bod Cyllid Strwythurol yr UE wedi bod yn 'weddol lwyddiannus' o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau cymdeithasol ac economaidd yn yr ardal. Roedd ymatebion gweddill y cyfranogwyr yn amrywio o 'peth llwyddiant' i 'llwyddiannus iawn'.

Yn Ardal B, dywedodd mwyafrif y cyfranogwyr fod Cyllid Strwythurol yr UE wedi bod yn 'weddol lwyddiannus' neu wedi cael 'peth llwyddiant'. Roedd y cyfranogwyr yn y ddwy ardal o'r farn y gallai cyllid fod wedi'i gydgyssylltu'n fwy effeithlon.

Mae Tablau 2 a 3 yn rhoi trosolwg o effaith canfyddedig Cronfeydd Strwythurol yr UE ar wahanol grwpiau poblogaeth a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd a llesiant.

Tynnodd sawl cyfranogwr yn Ardal A sylw at y ffaith nad oedd rhai grwpiau poblogaeth sy'n byw yn yr ardal yn elwa o'r ffrydiau cyllido; y gallai'r cronfeydd fod wedi'u cydlynu'n well; a bod rhywfaint o ddyblygu yn y broses ymgeisio a/neu yn y broses o ddyrannu'r cyllid.

Mae pryderon eraill a godwyd gan gyfranogwyr yn cyd-fynd â datganiadau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLIC), sydd wedi bod yn feirniadol o'r hyn y mae'n ei weld fel methiant i ddatganoli'r broses gwneud penderfyniadau ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE i'r 'lefel fwyaf priodol' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018).

Tynnodd sawl cyfranogwr yn ardal A sylw at y ffaith nad oedd y boblogaeth leol wedi cydnabod effaith gadarnhaol y cronfeydd.



rydyn ni wedi gweithio yn [...] am gyfnod sylweddol o amser ac rydych chi'n dod yn gyfarwydd â gweld yr arwyddion sy'n dweud 'ariannwyd gan Ewrop' a'r logo, ond bron eich bod yn mynd yn ddall iddo." (Cyfranogwr, Ardal A)

Blwch testun 1: Effaith economaidd-gymdeithasol Cronfeydd Strwythurol yr UE

Ar gyfer ardaloedd yn y DU sydd â'r anawsterau economaidd dyfnaf, dangoswyd bod ymyrraeth barhaus a dwys (fel yr hyn a ddarperir gan Gronfeydd Strwythurol yr UE) yn hanfodol i wella eu rhagolygon cymdeithasol ac economaidd (Tinker, 2018). Fodd bynnag, nid yw'r rhagfynegiad a oedd yn cael ei dderbyn yn flaenorol, sef y byddai datblygiad economaidd o fudd i bob aelod o gymdeithas yn y pen draw drwy effaith 'diferu', wedi dod i'r amlwg mewn llawer o economïau datblygedig (McKnight, Duque a Rucci, 2017).



O edrych ar y prosiectau rydyn ni'n eu rhedeg ar hyn o bryd ... maen nhw'n gweithio gyda menywod, dynion, pobl lesbiaidd, hoyw, trawsryweddol. Felly maen nhw'n gweithio ar draws y ... grwpiau cysylltiedig hynny, ac maen nhw wedi cael effaith gadarnhaol iawn."
(Cyfranogwr o Ardal A)



Roedd ein cyfradd diweithdra yn gostwng yn gynt na gweddill Cymru, ac mae hynny'n cael ei gyllido'n bennaf drwy Gronfeydd Strwythurol yr UE. Mae adfywio canol ein tref o ran y gwaith sydd wedi'i wneud yno a dechrau ailddeddfyddio rhai o'r adeiladau hyn, mae'n anodd gweld sut na allech chi ddadlau ei fod wedi cael effaith gadarnhaol iawn."
(Participant Area A)

Tabl 2: Crynodeb o effeithiau canfyddedig Cronfeydd Strwythurol yr UE ar Grwpiau Poblogaeth

Grŵp poblogaeth	Tystiolaeth yr astudiaeth	Effaith gyffredinol	
		Ardal A	Ardal B
Grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm	Dywedodd mwyafrif y cyfranogwyr yn y ddwy ardal fod Cyllid Strwythurol yr UE, yn gyffredinol, wedi cael effaith 'gadarnhaol iawn' neu 'gadarnhaol' yn eu hardal ar grwpiau poblogaeth sy'n gysylltiedig ag incwm , er bod y materion yn gymhleth a bod angen cyllid hirdymor.		
Grwpiau neu leoliadau daearyddol	O ran pobl mewn lleoliadau allweddol gan gynnwys gweithleoedd, ysgolion, ysbytai, cartrefi gofal a charchardai ; pobl sy'n byw mewn ardaloedd lle y gwelir dangosyddion economaidd a/neu ddangosyddion iechyd gwael ; pobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell neu orboblog ; a phobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau , roedd y cyfranogwyr unwaith eto yn gadarnhaol ar y cyfan heb unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y ddwy ardal. Teimlai rhai cyfranogwyr yn Ardal B fod pobl nad oeddent yn gallu cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau fwy na thebyg yn cael eu 'gwthio i'r cefndir'.		
Grwpiau rhyw a rhywedd	Roedd barn y cyfranogwyr yn y ddwy ardal ynghylch effaith Cyllid Strwythurol y DU yn gymysg, ond yn gadarnhaol ar y cyfan.		
Grwpiau sy'n gysylltiedig ag oedran	Roedd ymatebion y cyfranogwyr yn gadarnhaol ar y cyfan, er bod lleiafrif yn dweud nad oedd Cyllid Strwythurol yr UE wedi cael unrhyw effaith neu nad oeddent yn gwybod. O ran pobl hŷn , roedd ymatebion y cyfranogwyr yn amrywio rhwng y ddwy ardal gyda'r mwyafrif yn Ardal A yn cytuno ei fod wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan, ond yn Ardal B roedd ymatebion y cyfranogwyr yn amrywio o gadarnhaol iawn i ddim effaith, neu ddim barn.		
Grwpiau sydd â risg uwch o ddiodeff gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall	O ran grwpiau â risg uwch o ddiodeff gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall fel pobl ag anableddau neu'r rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor , nid oedd y cyfranogwyr gan amlaf yn canolbwyntio eu hymatebion ar unrhyw grwpiau poblogaeth penodol, ond yn hytrach yn rhoi ymateb cyffredinol. Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn y ddwy ardal yn aneglur ynghylch effaith Cyllid Strwythurol yr UE yn eu hardal ar grwpiau a oedd yn wynebu risg uwch o wahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall. O ran grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn Ardal A roedd bron i hanner y cyfranogwyr yn teimlo bod Cyllid Strwythurol yr UE wedi bod yn gadarnhaol ond i raddau gwahanol. Roedd y farn ar fanteision Cyllid Strwythurol yr UE i ofalwyr yn gymysg yn y ddwy ardal. Cyfeiriodd y cyfranogwyr yn y ddwy ardal at effeithiau eilaidd rhaglenni cyflogaeth ar gyfer y rhai â chyflyrau iechyd hirdymor . Roedd cyfranogwr yn Ardal A hefyd wedi gweithio ar brosiect a ariannwyd gan yr UE ar gyfer cyn-filwyr a oedd wedi bod yn brofiad cadarnhaol.		

Effaith gadarnhaol iawn
 Effaith gadarnhaol
 Effaith eithaf cadarnhaol
 Effaith fach neu ddim effaith

Tabl 3: Crynodeb o effaith ganfyddedig Cronfeydd Strwythurol yr UE ar benderfynyddion cymdeithasol iechyd a llesiant

Penderfynydd iechyd a llesiant	Tystiolaeth yr astudiaeth	Effaith gyffredinol	
		Ardal A	Ardal B
Ymddygiad sy'n effeithio ar iechyd	O gymharu ag Ardal B, roedd y cyfranogwyr yn Ardal A yn fwy cadarnhaol o ran manteision Cronfeydd Strwythurol yr UE i ymddygiad iach a rhoddodd nifer enghreifftiau o ble roedd Cyllid Strwythurol yr UE wedi cyfrannu at iechyd a llesiant gan gynnwys atal camddefnyddio sylweddau, gwella deiet a maeth a hybu datblygiad trefol.		
Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd	Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn y ddwy ardal yn teimlo bod Cyllid Strwythurol yr UE wedi cael effaith gadarnhaol ar ddylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd gan dynnu sylw at gyfraniad y cyllid at leihau trais domestig, gwella perthnasoedd teuluol a mynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Tynnodd y cyfranogwyr sylw hefyd at bwysigrwydd cynnwys y gymuned mewn trefniadau'n ymwneud â chyllid rhanbarthol, er iddynt gydnabod yr anawsterau o ran gwneud hynny – gan gynnwys pwysigrwydd gofyn y cwestiynau iawn i'r bobl iawn.		
Iechyd a Llesiant Meddyliol	Teimlai'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn Ardal A fod Cyllid Strwythurol yr UE wedi cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd meddwl pobl yr ardal. Fodd bynnag, dim ond tua hanner y cyfranogwyr yn Ardal B oedd yn cytuno â hyn. Yn ystod y gweithdy, roedd y cyfranogwyr o Ardal B i gyd yn teimlo y dylai cyllid ganolbwyntio ar iechyd meddwl yn y dyfodol.		
Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd a llesiant	Teimlai mwyafrif y cyfranogwyr yn Ardal A fod Cyllid Strwythurol yr UE yn gyffredinol wedi cael effaith gadarnhaol ar amodau byw ac amodau amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd . Er y cafwyd rhai ymatebion cadarnhaol yn Ardal B, roedd rhai cyfranogwyr yn ansicr a oedd yr effeithiau cadarnhaol hyn i'w priodoli i Gyllid Strwythurol yr UE, deddfwriaeth yr UE neu gyllid Llywodraeth Cymru.		
Mynediad at wasanaethau a'u hansawdd	O ran mynediad at wasanaethau a'u hansawdd dywedodd y ddwy ardal fod Cyllid Strwythurol yr UE wedi bod yn gadarnhaol, ond, unwaith eto, roedd rhai cyfranogwyr yn Ardal B yn ansicr a oedd y cyllid wedi dod o'r UE mewn gwirionedd. Teimlai rhai ymatebwyr fod cyllidwyr wedi gwneud rhagdybiaethau ynghylch yr hyn y byddai'r gymuned ei eisiau a bod diffyg ymgysylltiad cymunedol wrth wneud penderfyniadau.		
Ffactorau macroeconomaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd	Cafwyd barn gymysg ar ffactorau macroeconomaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd yn y ddwy ardal, gydag ambell gyfranogwr yn gallu rhoi enghreifftiau pendant o effaith		

■ Effaith gadarnhaol iawn
 ■ Effaith gadarnhaol
 ■ Effaith eithaf cadarnhaol
 ■ Effaith fach neu ddim effaith

6.

Canfyddiadau'r Ymchwil (2) - Cyllid rhanbarthol yn y dyfodol ac ymgysylltu â chymunedau lleol

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU: Datblygiadau polisi Llywodraeth y DU

Mae dod â Chyllid Strwythurol yr UE i ben yn gyfle i ailgynllunio cyllid rhanbarthol i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol ac economaidd a chreu economïau rhanbarthol cynaliadwy a chynhwysol. Nododd Llywodraeth y DU ei bwriad i ddisodli cronfeydd yr UE ym maniffesto'r Ceidwadwyr am y tro cyntaf yn 2017:



We will use the structural fund money that comes back to the UK following Brexit to create a United Kingdom Shared Prosperity Fund, specifically designed to reduce inequalities between communities across our four nations.'

(Y Blaid Geidwadol, 2017).

Yn ddiweddarach, ym mis Gorffennaf 2018, rhannodd Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar y pryd ddatganiad ysgrifenedig i ailddatgan yr ymrwymiad hwn a darparu manylion lefel uchel am Gronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig y DU (UKSPF; Senedd y DU, 2018a).

Drwy gydol 2018 a 2019, parhaodd Llywodraeth y DU i ddatgan ei bod yn ymgynghori ar fanylion y gronfa hon ac y byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei rhyddhau Yn ystod y cyfnod hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr hyn y byddai'n ei ffafrio o ran sut y gallai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin weithredu a datganodd ei bwriad i "weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU". (Llywodraeth Cymru, 2017b)

Erbyn haf 2019, nid oedd rhagor o fanylion wedi dod i'r amlwg gan Lywodraeth y DU, gan ysgogi Gweinidog Cyllid Llywodraeth Cymru ar y pryd mewn datganiad i'r Senedd i ofyn i Lywodraeth y DU am ragor o fanylion am sut y byddai'r gronfa'n gweithio, ac i alw arni i "gadarnhau ar fyrder y bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyllid ac ymreolaeth ar gyfer pennu trefniadau'r dyfodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risg i'n pobl, ein busnesau na'n cymunedau yma yng Nghymru". (Llywodraeth Cymru, 2019b)

Ym mis Gorffennaf 2020, fe wnaeth Gweinidog Gwladol Llywodraeth y DU dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar y pryd, ddatganiad ysgrifenedig yn cadarnhau y byddai gwerth y Gronfa Ffyniant Gyffredin fan leiaf yn cyfateb i faint y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ym mhob gwlad ac yn sicrhau bod £500 miliwn o'r Gronfa yn cael ei ddefnyddio i roi i bobl ddifreintiedig y sgiliau sydd eu hangen arnynt i sicrhau bod eu bywyd yn llwyddiant. (Senedd y DU, 2020b)

Cyn Adolygiad o Wariant 2020 Llywodraeth y DU ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynlluniau ar gyfer sut y byddai'n defnyddio cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin (ceir rhagor o fanylion am hyn yn yr adran ganlynol; Llywodraeth Cymru, 2020a) a chyhoeddodd ddatganiad ar y cyd â Llywodraeth yr Alban yn galw ar Lywodraeth y DU i "[b]archu datganoli a chadw at ei hymrwymiad i ddarparu union yr un faint o gyllid yn lle cyllid yr UE" (Llywodraeth Cymru, 2020b). Er bod yr Adolygiad o Wariant yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y Gronfa Ffyniant Gyffredin, roedd yn ymddangos ei fod yn rhoi pwyslais ar system ar gyfer y DU gyfan ac nid oedd yn sôn am y gweinyddiaethau datganoledig. Cafodd rhai manylion newydd eu cynnwys hefyd yn yr Adolygiad o Wariant dilynol ym mis Hydref 2021. (Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 2021)

Ym mis Chwefror eleni (2022), cyhoeddodd Llywodraeth y DU ragor o fanylion am y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar ffurf dogfen ganllaw cyn lansio'r gronfa yng ngwanwyn 2022 (Llywodraeth y DU, 2022a). Mae'r ddogfen ganllaw yn disgrifio prif nod y Gronfa Ffyniant Gyffredin fel meithrin balchder mewn lleoedd a chynyddu cyfleoedd bywyd ledled y DU.

Bydd gan leoedd ledled y DU dair blaenoriaeth fuddsoddi i ddewis ohonynt ar gyfer eu hardal:

- **Cymunedau a lle**
- **Busnesau lleol**
- **Pobl a sgiliau**

Mae'r Gronfa'n werth £2.6 biliwn dros y cyfnod 2024-25 a bydd ei gweithrediad yn cael ei arwain gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, gan weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o adrannau Llywodraeth y DU.

Bydd union ffocws y cyllid yng Nghymru yn y dyfodol, yn ôl y papur, yn cael ei bennu drwy ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.

Daw'r gronfa o dan bolisi "Ffyniant Bro" Llywodraeth y DU ac fe'i cynlluniwyd i gyfrannu at ystod eang o amcanion a amlinellir ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Ffyniant Bro (Llywodraeth y DU, 2022b).

Mewn ymateb i gyhoeddi canllawiau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Papur Gwyn, mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi siom gyda'r gronfa arfaethedig, gan ddweud bod gan Gymru "lai o lais a hynny dros lai o arian". Roedd dadansoddiad gan Lywodraeth Cymru, meddai, yn awgrymu y bydd Cymru bron i £1 biliwn ar ei cholled erbyn 2024 na phe bai'r DU wedi aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd (Llywodraeth Cymru, 2022).

Dywedodd dadansoddiad gan y Sefydliad Materion Cymreig, mewn ymateb i'r Papur Gwyn ar Ffyniant Bro, er bod mwy o ddatganoli rhanbarthol yn Lloegr yn cael ei weld fel ffordd o ysbrydoli twf i gyfeiriad sy'n cyd-fynd â dyheadau trigolion ar gyfer eu cymunedau, nid dyma'r agwedd o ran Cymru a'r Alban. (Sefydliad Materion Cymreig, 2022).

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU: Datblygiadau polisi Llywodraeth y DU

Ochr yn ochr â gwaith Llywodraeth y DU ar y cyllid i ddisodli Cronfeydd Strwythurol yr UE yn y dyfodol, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol Cymru ac mae wedi ymgynghori â rhanddeiliaid ar gynlluniau yn seiliedig ar gynigion a gyflwynwyd gan y grŵp (Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol Cymru, 2019).

Rhwng 2019 a 2020, bu Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ar brosiect i archwilio perfformiad yn ymwneud â chynhyrchiant a llesiant yng Nghymru, fframweithiau buddsoddi cyllidol a chyhoeddus Cymru, ac arferion datblygu rhanbarthol a llywodraethu buddsoddiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad sy'n crynhoi canlyniad yr ymarfer hwn ym mis Medi 2020 (OECD, 2020).

Arweiniodd argymhellion yr OECD, ar y cyd â chanlyniad gwahanol ymgynghoriadau â rhanddeiliaid, at ddatblygu Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol ledled Cymru. Mae'r fframweithiau hyn yn anelu at greu model datblygu economaidd â ffocws mwy rhanbarthol ar draws y pedwar rhanbarth yng Nghymru.

Yn ogystal â chyllid rhanbarthol, mae Deddf Marchnad Fewnol y DU hefyd wedi mynd i'r afael â rheoli cymorthdaliadau neu gymorth gwladwriaethol yn y DU ac wedi cadw'r holl faterion yn ôl ar gyfer Senedd y DU. Mae hyn er gwaetha'r ffaith i Lywodraeth Cymru ddadlau bod cymorth gwladwriaethol wedi'i ddatganoli gan nad yw'n fater a gadwyd yn ôl o dan unrhyw bennawd o'r Atodlen Materion a Gadwyd yn Ôl yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. O ganlyniad, mae'r dyraniad cyllid presennol yn cael ei reoli gan Lywodraeth y DU a phrin yw'r cyfleoedd i Lywodraeth Cymru ddylanwadu arnynt (Llywodraeth Cymru, 2021c; Sefydliad y Llywodraeth, 2021).

Newidiadau i gynlluniau cyllido rhanbarthol yn y dyfodol a allai wella iechyd a llesiant

Mae dull yr UE o ddsbarthu cronfeydd rhanbarthol o fewn ei diriogaeth yn seiliedig ar Werth Ychwanegol Gros y pen. Mae nifer o opsiynau ar gyfer newidiadau strwythurol i gynlluniau cyllid rhanbarthol, a fyddai'n berthnasol i Gymru, wedi'u nodi yn y llenyddiaeth. Gallai rhaglenni cyllido'r dyfodol ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion economaidd a llesiant yn ychwanegol at werth ychwanegol gros, megis lefelau incwm gwario a'r Mynegai Tlodi Dynol Rhanbarthol (a ddefnyddir i fesur tlodi yn rhanbarthau'r Undeb Ewropeaidd), a thrwy hynny adlewyrchu anghydraddoldeb rhanbarthol yn well (Barnard, Heykoop a Kumar, 2018; Henry a Morris, 2019). Yn 2019, disodlodd Seland Newydd werth ychwanegol gros gyda llesiant fel dangosydd sylfaenol wrth osod cyllidebau ac asesu polisiâu'r llywodraeth (Button, 2019).

Gan gyfeirio'n benodol at Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, mae Tinker (Tinker, 2018) wedi argymhell y dylai cyllid rhanbarthol yn y dyfodol fod yn hyblyg, cael ei ddatganoli a chael ei gynllunio i hyrwyddo twf cynhwysol wedi'i dargedu at y lleoedd sydd angen cymorth fwyaf. Dylid pennu cymhwysra ar sail y gyfradd gyflogaeth a lefelau cyflog y rhai lleiaf cefnog; a dylid datganoli cyllid i'r lefel is-enedlaethol. Mae CLLC wedi amlygu y dylai trefniadau olynol ar gyfer cyllid yr UE fynd i'r afael â chynhyrchiant, anghydbwysedd masnach, y bylchau sgiliau sy'n ehangu yn y DU a mynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng economïau ardal leol drwy Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU (Cymdeithas Llywodraeth Leol, 2017). Mae Comisiwn 2070 y DU wedi cynnig sefydlu Cronfa Adnewyddu'r DU i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau gofodol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn y Deyrnas Unedig (Comisiwn 2070 y DU, 2019). Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi mynegi pryder, os na fydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn efelychu cryfderau trefn gyllido bresennol yr UE, yna mae'r sector gwirfoddol a phrosiectau pwysig yn debygol o ddioddef, gan arwain at ganlyniadau i gydraddoldeb a hawliau dynol i rai o'r unigolion sydd fwyaf ar y cyrion yn y DU (Broughton et al., 2019).



Rwy'n meddwl y gall fod yn well gan mai'r mwyaf lleol ydyw, y mwyaf gwybodus y gall y broses fod. (Cyfranogwr, Ardal B)

Tystiolaeth yr Astudiaeth

Mynegodd y cyfranogwyr yn Ardal A bryderon ynghylch cyllid y dyfodol, gan gynnwys effaith llai o gyllid neu ddim cyllid o gwbl i gymryd lle y cronfeydd Ewropeaidd. Roeddent yn ofni y gallai hyn arwain at barhad diweithdra sydd wedi hen ymwreiddio neu gynnydd mewn amddifadedd yn gyffredinol. Dywedodd un cyfranogwr:



Os na fydd rhywbeth arall yn cymryd ei le, neu os bydd lleihad yn y cymorth ariannol, mae bylchau'n debygol o ymddangos a bydd hynny'n cael effaith andwyol ar iechyd a llesiant pobl sy'n agored i niwed. (Cyfranogwr, Ardal A)

Roedd gan y cyfranogwyr yn y ddwy ardal hefyd amrywiaeth eang o farn ar strwythur unrhyw gynllun i ddisodli'r cronfeydd Ewropeaidd yn y dyfodol. Pwysleisiodd y rhai a gymerodd ran yn Ardal A eu pryder ynghylch blaenoriaethau'r dyfodol, gan gynnwys: y gallai Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar ganlyniadau'n ymwneud â chyflogaeth a'r economi yn hytrach

na rhai cymdeithasol; y gallai sgiliau cyflogaeth gael eu hanwybyddu; y gellid blaenoriaethu cyllid seilwaith dros gyllid i unigolion a chymunedau; neu y gallai Llywodraeth y DU ganolbwyntio ar wariant ar flaenoriaethau gwleidyddol neu bolisi eraill heblaw iechyd a llesiant.

Pwysleisiodd y cyfranogwyr yn y ddwy ardal bwysigrwydd datganoli cyfrifoldeb dros gyllid, gan fod anghenion Cymru yn wahanol i rai gweddill y DU. Roedd y cyfranogwyr yn y ddwy ardal hefyd yn gytûn yn gyffredinol ynghylch pwysigrwydd cyllid lleol a'r angen am gydlynu agos er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion.

Nid oedd cyfranogiad gweithredol Llywodraeth Cymru na Llywodraeth y DU bob amser yn cael ei weld mewn goleuni cadarnhaol. Thema gyffredin ymhlith y cyfranogwyr oedd pwysigrwydd ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau lleol. Gwnaeth sawl cyfranogwr bwynt olaf ynghylch pwysigrwydd cynlluniau cyllido hyblyg gyda llai o faich gweinyddol.



Yn hytrach nag eistedd yn y swyddfa a chynnal archwiliad ystafell wely, ac edrych ar ddarnau o ymchwil a dweud, iawn, dyma beth yw'r flaenoriaeth, rwy'n meddwl y dylent ymweld â'r cymunedau a siarad â phobl am beth yw'r blaenoriaethau.” (Cyfranogwr, Ardal B)

Blaenoriaethau yn y dyfodol i fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd

Cefndir

Yng Nghymru, nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Llywodraeth Cymru, 2015) yw gwneud newidiadau hirdymor a chadarnhaol i lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae gwahaniaethau sylweddol o hyd mewn iechyd rhwng gwahanol ranbarthau yng Nghymru, a hyd yn oed o fewn ardaloedd cyfagos. Er enghraifft, yn ardal Rhiwbeina yng Ngogledd Caerdydd, mae disgwyliad oes ymysg menywod bron yn 90 mlynedd, o gymharu â llai na 75 mlynedd yn ardal Pilgwenlli yng nghanol Casnewydd (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016).

Gall strategaethau i gefnogi ardaloedd tlotach greu amodau ar gyfer twf economaidd megis cymorth busnes, datblygu eiddo diwydiannol a masnachol a thai newydd, a all yn ei dro greu swyddi da. Gall ymyriadau polisi sydd wedi'u cynllunio'n dda helpu i hybu twf economaidd a chyflogaeth (Crisp et al, 2014 a ddyfynnwyd yn Tinker, 2018; Ymchwil y Senedd, 2019).

Mae Comisiwn 2070 y DU wedi datgan bod angen atgyfnerthu economïau lleol sydd wedi'u hallgáu'n flaenorol o agenda twf y DU, gan ddatblygu eu sylfeini a'u gwydnwch, er enghraifft, ar gyfer iechyd, gofal, addysg, mynediad at dai, er mwyn creu lleoedd gwych (Comisiwn 2070 y DU, 2019).

Canfyddiadau'r Ymchwil

Tynnodd bron pob un o'r cyfranogwyr sylw at y cysylltiad cryf rhwng gwahanol benderfynyddion cymdeithasol iechyd ac roeddent yn ei chael hi'n anodd blaenoriaethu un yn benodol. Roeddent yn aml yn cael eu hystyried yr un mor bwysig â'i gilydd ac roedd angen dull gweithredu integredig gan eu bod i gyd yn effeithio ar ei gilydd yn gadarnhaol neu'n negyddol. Mae Tabl 4 yn rhoi trosolwg o'r ymatebion a ddarparwyd gan gyfranogwyr mewn perthynas â gwahanol benderfynyddion cymdeithasol iechyd.

Tabl 4: Crynodeb o ymatebion y cyfranogwyr ynghylch blaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer penderfynyddion cymdeithasol iechyd

Penderfynyddion cymdeithasol iechyd	Tystiolaeth yr astudiaeth
Ymddygiad sy'n effeithio ar iechyd	Amlygwyd bod ymddygiad iach yn arbennig yn cael ei effeithio gan ddylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd, iechyd a llesiant meddyliol ac amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd . Nododd y ddwy ardal fod camddefnyddio sylweddau a chaethiwed i sylweddau yn broblem fawr. Amlygodd cyfranogwyr yn Ardal B fod gordewdra yn broblem ynghyd â'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol .
Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd	Roedd cyfranogwyr yn y ddwy ardal yn ystyried bod dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd yn bwysig, yn enwedig mewn perthynas â phenderfynyddion eraill megis ymddygiad iach, iechyd meddwl ac amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd . Teimlai'r cyfranogwyr y dylai cydlyniant cymunedol neu ddod â phobl at ei gilydd fod yn flaenoriaeth glir. Cyfeiriwyd yn aml at brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod fel dylanwad ar y penderfynydd hwn.
Iechyd a Llesiant Meddyliol	Amlygodd y cyfranogwyr yn ardal B ymdeimlad o berthyn ac ynysigrwydd cymdeithasol o fewn ardaloedd gwledig ond hefyd ymhlith rhai grwpiau poblogaeth megis yr henoed , fel meysydd pryder allweddol. Cyfeiriodd y cyfranogwyr yn y ddwy ardal at bwysigrwydd iechyd meddwl . Roedd mynediad at wasanaethau i gleifion yn bryder yn ogystal â chysylltiadau ag ynysu, cydlyniant cymdeithasol, camddefnyddio sylweddau, gweithgaredd corfforol, ymdeimlad o berthyn a chyflogaeth .
Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd	Cynigiodd y cyfranogwyr amrywiaeth o safbwyntiau ar y penderfynydd hwn, yn amrywio o'r angen i gysylltu seilwaith ag elfen gymdeithasol gref gan gynnwys cynnwys y gymuned leol yn y broses gwneud penderfyniadau. Codwyd pwysigrwydd tai o ansawdd da hefyd. Yn Ardal B, cyfeiriwyd at ba mor atyniadol yw canol y dref fel mater a oedd yn cael effaith negyddol ar ddiogelwch a thwristiaeth.
Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd	Soniodd y cyfranogwyr yn y ddwy ardal am y ffaith bod cyflogaeth yn cael effaith fawr ar iechyd a llesiant cyffredinol.
Mynediad at wasanaethau a'u hansawdd	Yn y ddwy ardal, amlygodd y cyfranogwyr yn arbennig bwysigrwydd mynediad at wasanaethau iechyd meddwl gyda ffocws penodol ar ardaloedd gwledig. Yn gyffredinol, amlygwyd bod mynediad at wasanaethau yn chwarae rhan bwysig yn y broses o gael pobl i wella eu bywydau.
Ffactorau macroeconomaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd	Cyfeiriodd y cyfranogwyr yn y ddwy ardal yn aml at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel ffactor allweddol ym mhenderfynyddion iechyd macroeconomaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd yn y dyfodol.



Yr hyn sy'n gyffredin yw bod y rhan fwyaf o'r materion cymdeithasol yr ydym yn ceisio'u datrys yn ymwneud â phobl yn cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ond mewn gwirionedd os gallwch gefnogi pobl yn gynharach, mae'n debyg y byddwch yn datrys llawer o broblemau cymdeithasol ac economaidd ar gyfer y dyfodol."
(Cyfranogwr, Ardal A)



Mae pawb yn meddwl [...] eu bod nhw wedi dod o ddim a'u bod yn gallu ymdopi â beth bynnag rydych chi'n ei daflu atyn nhw ac maen nhw'n tai gwaethaf iddyn nhw gyda llwydni."
(Cyfranogwr, Ardal A)

Blaenoriaethau cyllido'r dyfodol ar gyfer grwpiau poblogaeth

Cefndir

Mae dynion, yn enwedig y rhai sydd â llai o gymwysterau ffurfiol, yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn diwydiannau a allai ddiodeff amodau masnachu anffafriol ar ôl Brexit; mae'r rhai sy'n cael eu cyflogi mewn galwedigaethau sy'n ymwneud â phrosesau, peiriannau a pheirianwaith mewn mwy o berygl o golli eu swyddi (Levell a Norris Keiller, 2018). Ar ddechrau'r pandemig, y rhain oedd y sectorau a gafodd eu taro waethaf o ran diswyddiadau, colli swyddi a ffyrlo drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (Winding et al., 2021.). Fodd bynnag, gyda'r economi'n ailagor mae adroddiadau o brinder llafur/sgiliau ym mhob sector o ddiwydiant sy'n arwain at gyfleoedd cyflogaeth newydd a mwy o hyfforddiant i weithwyr presennol (Y Brifysgol Agored, 2021).

Yng Nghymru, gallai rhaglenni cyllido sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â thlodi arwain at anfantais i ardaloedd gwledig os nad ydynt yn ystyried natur 'gudd' **tlodi gwledig**, nad yw'n hawdd ei gynnwys mewn rhaglenni â ffocws daearyddol, lle mae cymhwystera wedi'i ddiffinio gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Ymchwil y Senedd, 2019). Mae'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus (IPPR; Tinker, 2018) yn nodi, gyda thlodi mewn gwaith ar gynydd, ei bod hefyd yn bwysig edrych ar enillion ochr yn ochr â nifer y bobl mewn gwaith.

Canfyddiadau'r Ymchwil

Dywedodd llawer o'r cyfranogwyr fod pob grŵp poblogaeth (gweler Atodiad III) yr un mor bwysig â'i gilydd a'i bod yn anodd amlygu un grŵp y dylai unrhyw gynllun cyllido yn y dyfodol ei dargedu. Yn aml, nodwyd cysylltiadau rhwng y gwahanol grwpiau megis **pobl sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir dangosyddion economaidd neu iechyd gwael** a oedd hefyd yn tueddu i fod **mewn perygl mawr o ddiodeff gwahaniaethu, o fod yn economaidd anweithgar** a/neu o fod **ar incwm is**. Mae Tabl 5 yn rhoi trosolwg o'r ymatebion a ddarparwyd gan gyfranogwyr mewn perthynas â gwahanol benderfynyddion cymdeithasol iechyd.



Mae'n bwysig iawn rhoi ...ffordd i blant a phobl ifanc ymuno â'r byd gwaith a chyfrannu at gymdeithas yn effeithiol."

(Cyfranogwr, Ardal A)



Rydyn ni'n mynd i gael grŵp o bobl hŷn sy'n cael eu gwthio allan o'u swyddi, ond dydyn nhw nhw ddim yn gallu ymddeol. Dydyn nhw ddim yn gallu codi pensiwn, ac mae'n debyg y bydd angen llawer o gynlluniau arnon ni ar y pen hwnnw o'r farchnad i sicrhau cydbwysedd yn yr economi."

(Cyfranogwr, Ardal B)

Tabl 5 Grwpiau Poblogaeth - Blaenoriaethau'r dyfodol

Grwpiau poblogaeth	Tystiolaeth yr astudiaeth
Grwpiau sy'n gysylltiedig â Rhyw/Rhywedd	Ni wnaed unrhyw sylwadau penodol mewn perthynas â'r grŵp poblogaeth hwn.
Grwpiau sy'n gysylltiedig ag oedran	Yn y ddwy ardal, soniwyd gan fwyaf am y blynyddoedd cynnar, plant a phobl ifanc , a grwpiau'n gysylltiedig ag incwm fel grwpiau poblogaeth a ddylai elwa o gyllid yn y dyfodol. Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn y ddwy ardal yn cytuno mai'r boblogaeth oedranus yw'r un sy'n cael ei hanwybyddu fwyaf gan Gronfeydd Strwythurol yr UE. Roedd y cyfranogwyr yn Ardal B yn arbennig yn teimlo ei bod yn bwysig helpu pobl yn y grŵp hwn i gynnal eu hannibyniaeth ac aros mewn gwaith am gyfnod hwy.
Grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm	Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn y ddwy ardal yn ystyried mai grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm oedd y rhai pwysicaf a nodwyd bod grwpiau poblogaeth eraill yn aml yn dod o fewn y categori hwn megis pobl â phroblemau iechyd meddwl, Sipsiwn a Theithwyr, pobl â chyflyrau iechyd hirdymor a phobl drawsryweddol .
Grwpiau sydd â risg uwch o ddiodef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall	Roedd pobl â phroblemau iechyd meddwl; a phobl ag anableddau , grwpiau ethnig lleiafrifol, Sipsiwn a Theithwyr a phobl â phroblemau iechyd meddwl yn aml yn cael eu hamlygu yn y ddwy ardal fel grwpiau blaenoriaeth.
Grwpiau a/neu leoliadau daearyddol	Roedd y cyfranogwyr yn Ardal B o'r farn ei bod yn bwysig bod mwy o arian ar gael i garcharorion a'u teuluoedd i ailintegreiddio ac adsefydlu cyn-garcharorion i gymdeithas. Roedd sawl cyfranogwr yn teimlo ei bod yn bwysig galluogi'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell i gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau .



Hoffwn hefyd weld cynnydd yn y cymorth i'r rhai sydd mewn gwaith fel y gall pobl symud i fyny yn y byd gwaith hwnnw, yn hytrach na dim ond dechrau ar y rheng isaf, ac aros yno.”
(Cyfranogwr, Ardal A)



O ran dod â rhywun â phroblemau iechyd meddwl, er enghraifft, yn ôl i gymdeithas, mae cost a budd ariannol enfawr i hynny yn ogystal â budd cymdeithasol o ganlyniad.”
(Cyfranogwr, Ardal B)



Rwy'n meddwl bod angen cryn dipyn o gymorth ar gymunedau Sipsiwn a Theithwyr oherwydd os ydynt yn gymunedau teithiol dydyn nhw ddim yn gall cael mynediad at feddygon teulu, dydyn nhw ddim yn gallu cael mynediad at ofal sylfaenol, felly mae hynny'n effeithio ar eu hiechyd. Efallai y byddan nhw'n cael eu hynysu, felly mae effaith ganlyniadol ar bopeth arall. Efallai y byddan nhw'n dod yn economaidd anweithgar neu'n mynd yn brin o incwm. Yna mae hynny'n effeithio ar eu hiechyd meddwl.” (Cyfranogwr, Ardal A)

Ymgysylltu â chymunedau lleol yn y dyfodol mewn perthynas â chyllid rhanbarthol

Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai ar lefel gymunedol y cyflawnir y datblygiad economaidd rhanbarthol cryfaf ac mae wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda chymunedau lleol yn y dyfodol (Llywodraeth Cymru, 2017). Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid a ymatebodd i ymchwil a gynhaliwyd ar ran Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i nodi blaenoriaethau polisi ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru yn y dyfodol yn cytuno â'r dull hwn, gan gynnwys ymgysylltu'n ehangach â'r trydydd sector (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae ymchwil yn dangos y gall dull sy'n seiliedig ar le o ymgysylltu â'r gymuned gwmpasu amrywiaeth y rhanddeiliaid a lleihau anghydraddoldebau iechyd (Woods, 2018; Public Health England, 2019).

Yn ehangach, mae'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus ac eraill yn cytuno bod gan gymunedau ran allweddol i'w chwarae mewn penderfyniadau cyllido rhanbarthol yn y dyfodol. Yn ôl y sefydliadau hyn, mae amrywiaeth o gyfleoedd i awdurdodau lleol gysylltu â chymunedau lleol a gwranddo arnynt yn fwy effeithiol megis menter 'The Way Ahead' yn Llundain, sy'n ceisio cydgysylltu adnoddau sefydliadau cymdeithas sifil, cyllidwyr annibynnol a'r sector cyhoeddus drwy ddod â lleisiau cymunedol ynghyd i ddylanwadu ar lywodraeth leol (Henry a Morris, 2019).

Canfyddiadau'r ymchwil

Roedd y cyfranogwyr yn y ddwy ardal yn cydnabod prosesau presennol megis grwpiau ffocws, arolygon ac ymgynghori ond cytunwyd y gellid gwneud mwy i gynnwys y gymuned leol wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol. Teimlwyd nad yw ymgynghoriadau cyfredol gan awdurdodau lleol yn aml yn gynhwysol a'u bod yn rhy dechnegol ac yn ymddieithrio pobl. Mewn rhai achosion teimlwyd eu bod yn ddibwrpas gan fod y cyfranogwyr yn teimlo nad oedd adborth yn cael ei ystyried. Yn Ardal A yn arbennig, teimlai'r cyfranogwyr fod Cronfeydd Strwythurol yr UE yn targedu'r rhai sy'n hawdd ymgysylltu â nhw yn rhy aml:



Rwy'n credu mai'r anhawster gydag unrhyw ymgynghoriad â'r boblogaeth ehangach yw ei fod yn canolbwyntio ar y rhai sy'n hawdd ymgysylltu â nhw ond mae'n awtomatig yn eithrio grwpiau sy'n anoddach eu cyrraedd ac, yn eironig, y grwpiau hynny sydd ei angen fwyaf"
(Cyfranogwr, Ardal A)

Teimlwyd bod defnydd cynyddol a gwell o'r cyfryngau cymdeithasol, arolygon a'r defnydd o grwpiau ffocws (rhithwir) yn ffordd dda o ymgysylltu â chymunedau lleol er bod rhywfaint o amheuaeth a fyddai hyn o gymorth i'r rhai sy'n llai gweithgar yn ddigidol. Teimlwyd hefyd bod cyfarfodydd cyhoeddus a drefnwyd gan sefydliadau cymunedol lleol ar ffurf gweithdy yn ddefnyddiol, er y cydnabuwyd eto nad yw hyn yn cynnwys grwpiau na chlywir eu lleisiau'n aml. Er mwyn goresgyn hyn, awgrymodd y cyfranogwyr y dylid ymgysylltu'n fwy gweithredol â sefydliadau'r trydydd sector a allai fod yn gweithio'n uniongyrchol â grwpiau o'r fath:



Rwy'n meddwl bod rhywbeth ynglŷn ag ymgysylltu â nhw – boed yn elusennau, grwpiau cymunedol neu bwy bynnag sydd eisoes yn gweithio gyda'r unigolion sydd wedi'u difreinio oherwydd mewn gwirionedd, nhw yw'r bobl a fydd â chysylltiadau â'r bobl hyn ac y bydd y bobl hyn yn ymddiried ynddyn nhw." (Cyfranogwr, Ardal A)

Awgrymodd sawl cyfranogwr, y rhai yn Ardal B yn bennaf, y dylid ymgysylltu drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn enwedig gan y gallant gynnwys sefydliadau cymunedol a chynghorwyr a all fwydo i mewn i bolisi llywodraeth leol a chenedlaethol.

Gwnaed amrywiaeth o awgrymiadau eraill gan gynnwys sicrhau bod sefydliadau sy'n gymwys i gael cyllid yn ymwneud yn fwy â'r broses o ddatblygu'r system/ymgysylltu; addysg well i unigolion a'r trydydd sector ar 'sut mae'r system yn gweithio'; nodi pobl weithgar a dylanwadol a hyrwyddwyr cymunedol i gael cipolwg ar yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad; darparu cymorth i sefydlu rhwydweithiau rhwng sefydliadau a ariennir; a phrosiectau i annog cyfnewid syniadau ac arfer da.

Proses weinyddol o ymdrin â chyllid rhanbarthol yn y dyfodol

Cefndir

Mae'r ffordd y cafodd cronfeydd strwythurol eu dyrannu a'u darparu wedi'u disgrifio'n eang gan amrywiaeth o sefydliadau yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys elusennau a llywodraethau lleol, fel 'biwrocraidd' (Cymdeithas Llywodraeth Leol, 2017). Mae rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Pwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol Senedd y DU a'r Pwyllgor Dethol ar Waith a Phensiynau, yn gyffredinol yn cytuno ac yn cyfeirio at ddiffyg hyblygrwydd a thargeddu gwael o ardaloedd a chymunedau y bwriadwyd i'r cronfeydd eu cynorthwyo (Tinker, 2018).

Cydnabu Llywodraeth Cymru fod cyfleoedd mawr i symleiddio cymhlethdodau gweinyddol a rheolau, ac anogodd arloesi a mwy o fuddsoddiad gan y sector preifat (Llywodraeth Cymru, 2017). Cydnabu hefyd nad yw'r holl rhanddeiliaid, yn enwedig CLILC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2018), yn gwbl gefnogol i brosesau'r gorffennol.

Y tu allan i Gymru, mae ymchwil annibynnol a gynhaliwyd ar gyfer y Gymdeithas Llywodraeth Leol (a ddyfynnwyd yn nogfen y Gymdeithas Llywodraeth Leol, 2017) wedi canfod bod cysylltu cyllid ar ôl Brexit mewn ffordd fwy syml a hyblyg â chymunedau i sicrhau bod blaenoriaethau lleol yn cael y lle blaenaf mewn rhaglenni yn allweddol. Roedd Pwyllgor Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi a'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus ymhlith y rhanddeiliaid eraill sy'n credu y dylai'r gweinyddiaethau datganoledig, llywodraeth leol, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu fframwaith ar gyfer cyllid rhanbarthol yn y dyfodol (Tŷ'r Arglwyddi, 2018). At hynny, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi mynegi pryder, os na fydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn efelychu cryfderau trefn gyllido bresennol yr UE, yna bydd y sector gwirfoddol a phrosiectau pwysig yn debygol o ddioddef, gan arwain at ganlyniadau i gydraddoldeb a hawliau dynol i rai o'r unigolion sydd fwyaf ar y cyrion yn y DU (Broughton et al., 2019).

Canfyddiadau'r ymchwil

Roedd prosesau gweinyddol Cronfeydd Strwythurol yr UE yn gyffredinol yn cael eu gweld mewn goleuni negyddol gan y cyfranogwyr yn Ardal A. Roedd sawl ymatebydd yn cytuno bod y baich biwrocraidd yn effeithio ar ansawdd a chwmpas eu gwasanaethau.



Pe na byddai'n rhaid i ni gydymffurfio â'r lefel o fiwrocraetiaeth a phe baem yn dal i gael yr un faint o arian o hyd, byddem yn gallu darparu gwasanaeth llawer gwell ar y rheng flaen.
(Cyfranogwr, Ardal A)

Yn Ardal B roedd agweddau tuag at faich gweinyddol y cyllid yn amrywio, gyda mwyafrif bach o'r cyfranogwyr yn disgrifio eu profiad fel rhywbeth 'gweddol gadarnhaol', 'eithaf cadarnhaol' neu 'gadarnhaol iawn'.

O ran cynllun yn y dyfodol, roedd bron i hanner y cyfranogwyr yn y ddwy ardal yn disgwyl i'r prosesau gweinyddol fod 'ychydig yn well' neu'n 'llawer gwell'. Roedd nifer bach o gyfranogwyr yn y ddwy ardal yn disgwyl y byddai'r broses weinyddol ond yn gwella yn y tymor hwy ar ôl aros yr un peth i ddechrau.



Os bydd Llywodraeth Cymru yn parhau ar yr un trywydd o geisio cael dulliau cyllido sy'n fwy seiliedig ar ganlyniadau, yna dylai maint y gwaith monitro, y gwaith papur leihau beth bynnag. (Cyfranogwr, Ardal B)

Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith y cyfranogwyr yn y ddwy ardal y byddai cyllid rhanbarthol yn y dyfodol yn fwyaf effeithlon ac effeithiol pe bai'n cael ei ddatganoli i Gymru gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a'u cymunedau yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith hwnnw. Ystyriwyd bod hyblygrwydd yn allweddol er mwyn mynd i'r afael â heriau iechyd a llesiant penodol. Roedd y cyfranogwyr hefyd yn meddwl y gallai gwneud penderfyniadau ymarferol fod yn addas i'w datganoli i'r lefel leol gyda chynrychiolwyr cymunedol yn ymwneud â'r broses o ddyrannu adnoddau. Yn olaf, cytunodd y cyfranogwyr fod cyfleoedd i leihau'r baich gweinyddol ar gyfer defnyddio a rheoli'r cronfeydd. Bydd hyn, yn ôl y cyfranogwyr, yn rhoi mwy o gyfleoedd i sefydliadau llai ymgeisio. Ar hyn o bryd, dim ond drwy is-gontractau, gyda chwmnïau preifat yn aml sydd â'r gallu angenrheidiol i ymdopi â'r baich gweinyddol sy'n gynhenid i brosesau'n ymwneud â cheisiadau am gyllid yr UE y gallai sefydliadau llai elwa o'r cyllid.

Prif ddiben yr astudiaeth oedd deall beth fydd dirwyn mynediad i Gronfeydd Strwythurol yr UE i ben yn ei olygu i iechyd a llesiant cymunedau yng Nghymru.

Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth mewn sefyllfa dda i ddarparu darlun ystyrion o oblygiadau dirwyn Cronfeydd Strwythurol yr UE i ben i iechyd a llesiant pobl yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Er bod canfyddiadau'r astudiaeth yn seiliedig ar gyfweiliadau â nifer cyfyngedig o unigolion ac na ellir eu hystyried yn sampl gynrychioliadol, yn gyffredinol roedd barn y cyfranogwyr yn adlewyrchu canfyddiadau ein hadolygiad o'r llenyddiaeth.

Er bod Ardal A wedi cael llawer mwy o Gyllid Strwythurol nag Ardal B, roedd ymatebion y cyfranogwyr o'r ddwy ardal yn weddol debyg. Roedd tebygrwydd yr atebion yn y ddwy ardal hefyd yn ei gwneud hi'n anodd gwneud dadansoddiad cymharol rhwng y ddwy ardal a oedd â gwahanol lefelau o gyllid, sef un o ddyheadau cychwynnol yr astudiaeth.

Ar draws y ddwy ardal, teimlai'r cyfranogwyr, o ran grwpiau poblogaeth, mai pobl mewn grwpiau poblogaeth sy'n gysylltiedig ag incwm a oedd wedi cael y budd mwyaf o Gyllid Strwythurol yr UE. Roedd y cyfranogwyr yn y ddwy ardal yn gweld hyn mewn goleuni cadarnhaol ac yn tynnu sylw at y gyberthynas gadarnhaol rhwng cyflogaeth ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl ar gyfer pobl â chyflyrau iechyd hirdymor yn arbennig. Yn gyffredinol, cyfranogwyr yn Ardal A (a oedd wedi derbyn mwy o gyllid nag Ardal B) oedd fwyaf cadarnhaol ynghylch effaith Cyllid Strwythurol yr UE ar benderfynyddion iechyd a llesiant.

Mae'n nodedig bod cyfranogwyr yn y ddwy ardal yn teimlo nad oedd pobl mewn cymunedau wedi cydnabod y cyfraniad yr oedd Cronfeydd Strwythurol yr UE wedi'i wneud yn eu hardal. Roedd y rhesymau am hyn yn aneglur, ond efallai mai'r rheswm am hyn oedd diffyg gwybodaeth a allai fod wedi creu datgysylltiad rhwng y newidiadau cadarnhaol a welwyd gan bobl yn eu hamgylchedd a rôl Cronfeydd Strwythurol yr UE wrth ysgogi'r newidiadau hyn a'r ffaith nad oedd y gymuned yn ymwneud â'r broses o ddyrannu'r cyllid.

O ran blaenoriaethau'r dyfodol, cynigiodd y llenyddiaeth a'r rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch sut y dylai cyllid rhanbarthol yn y dyfodol fynd i'r afael â heriau cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru. Pwysleisiodd y ddau fod angen ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau lleol, yn enwedig y rhai nad ydynt yn ymwneud â phrosesau ymgynghori presennol. Ymhlith grwpiau poblogaeth, amlygodd y cyfranogwyr blant a phobl ifanc, grwpiau'n gysylltiedig ag incwm, pobl hŷn a grwpiau â risg uwch o ddioddef gwahaniaethu fel blaenoriaethau cyllido yn y dyfodol. Ar gyfer penderfynyddion cymdeithasol iechyd, roedd y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn ei chael hi'n anodd blaenoriaethu un penderfynydd dros eraill a phwysleiswyd yr angen am ddull integredig o wneud penderfyniadau yn y dyfodol, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

8. Casgliad

Roedd y cyfranogwyr yn y ddwy ardal o'r farn bod Cronfeydd Strwythurol yr UE yn weddol lwyddiannus o ran gwella penderfynyddion cymdeithasol iechyd a chyfrannu at iechyd a llesiant grwpiau poblogaeth mewn cymunedau difreintiedig.

Nododd y cyfranogwyr o'r ddwy ardal, a'r llenyddiaeth, ddiffygion o ran y prosesau ar gyfer gwneud cais a gweinyddu cyllid o dan Gronfeydd Strwythurol yr UE, ac nad oedd gan lawer o sefydliadau llai y gallu i gael grantiau a'u gweinyddu'n llwyddiannus. O ganlyniad, roedd grantiau'n cael eu rhoi i sefydliadau mwy yn bennaf, yn aml i gwmnïau preifat, a oedd â'r capasiti angenrheidiol i ymdrin â'r gofynion gweinyddol. Yn aml, dim ond mewn achosion lle y byddai sefydliad mwy yn eu cynnwys yn y prosiect yr oedd sefydliadau llai yn llwyddo i elwa ar Gronfeydd Strwythurol yr UE yn anuniongyrchol. Roedd y mater hwn yn bryder a adleisiwyd gryfaf gan y cyfranogwyr a oedd yn cynrychioli'r trydydd sector.

Pryderon allweddol eraill a godwyd gan gyfranogwyr oedd dyblygu ymdrech a diffyg ymgysylltiad cymunedol gwirioneddol. Roedd y dyblygu ymdrechion yn ymwneud yn bennaf â sefydliadau tebyg yn targedu'r un grwpiau poblogaeth hawdd eu cyrraedd a "mwy parod" tra bod y rhai sydd wedi'u datgysylltu o gymdeithas yn aml yn cael eu hanwybyddu.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cydnabod y pryderon a godwyd gan y rhai a gymerodd ran yn ein hastudiaeth a lle y bo'n bosibl yn ceisio gwella trefniadau yn y dyfodol, er mwyn i sefydliadau'r trydydd sector gael cyfran deg o'r cyllid sydd ar gael a bod adnoddau cyllido prin yn y dyfodol yn cael eu symleiddio, yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn fwy hyblyg ac yn gyllid hirdymor.

Cytunodd y cyfranogwyr y dylai'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ar gyllid rhanbarthol yn y dyfodol gael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru ac, wedi hynny, ei ddatganoli ymhellach i lefelau rhanbarthol a chymunedol.

Yn gyffredinol, mae Cymru mewn sefyllfa dda i wneud gwelliannau cyson a pharhaus i iechyd a llesiant pobl drwy ei deddfwriaeth 'iechyd ym mhob polisi' gan gynnwys Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Watkins, 2017), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 (Llywodraeth Cymru, 2021a) a Dyfodol Cymru: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Llywodraeth Cymru, 2021b). Yn dilyn canlyniad ei hymgyngoriad ar gyllid rhanbarthol a chanfyddiadau ei phrosiect partneriaeth gyda'r OECD, mae Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch cyfeiriad cyllid rhanbarthol yng Nghymru yn y dyfodol. Gobeithiwn y gellir defnyddio'r wybodaeth a gawsom o'r astudiaeth hon i lywio'r broses ymhellach ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a chymunedol a chyfrannu at wella iechyd a llesiant pobl ledled Cymru.

Mae'r blaenoriaethau yn seiliedig ar y dystiolaeth a oedd ar gael pan gynhaliwyd yr ymchwil ac rydym yn cydnabod y gallai'r sefyllfa fod wedi newid. Fel yr amlygwyd yn gynharach ym Mhennod 6, mae cyhoeddi'r ddogfen ganllaw cyn lansio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a rhaglenni cyllido rhanbarthol eraill a lansiwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU yn awgrymu cynllun mwy canolog ar gyfer y DU gyfan gyda dim ond cyfraniad cyfyngedig gan y gwledydd datganoledig. Waeth beth fo canlyniad trafodaethau gwleidyddol ynghylch sut y caiff y Gronfa Ffyniant Gyffredin neu ffrydiau cyllido eraill eu rheoli, mae'r egwyddorion ar gyfer yr hyn a all wella effaith rhaglenni cyllido ar iechyd a llesiant mewn cymunedau difreintiedig yng Nghymru, fel y nodwyd yn yr astudiaeth hon, yn parhau'n ddilys.

- Mae risgiau os na fydd y cyllid rhanbarthol newydd yn cyfateb neu'n uwch na'r ffrydiau incwm presennol o Gronfeydd Strwythurol yr UE. Mae'r cronfeydd yn chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol ac economaidd iechyd a llesiant, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a pholisïau a deddfwriaethau eraill Cymru.
- Ymhlith y nodweddion allweddol i'w hystyried ar gyfer cyllid yn y dyfodol mae: tystiolaeth o angen; hirdymor; cynhwysol; seiliedig ar ganlyniadau; canolbwyntio ar atal; a chynnal yr egwyddor o ychwanegedd. Lle bo modd, gellir defnyddio cyllid yn y dyfodol hefyd i helpu i alluogi arloesi ac annog cyfnewid syniadau ac arfer da. Gellir annog cymunedau i arbrofi gyda dulliau newydd ac arloesol o ymdrin â chyllid rhanbarthol, megis datblygu cyfoeth cymunedol a modelau amgen o lywodraethu economaidd, megis busnesau a chwmnïau cydweithredol sy'n eiddo i'r gymuned. Mae'n bwysig nodi a chefnogi'r sefydliadau hynny y mae dirwyn Cronfeydd Strwythurol yr UE i ben yn effeithio arnynt fwyaf, gan gynnwys eu gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau i grwpiau poblogaeth sy'n agored i niwed.
- Bydd prosesau symlach yn helpu i wella gwasanaethau rheng flaen, ac yn gwneud cynlluniau cyllido yn fwy hygyrch i sefydliadau llai, yn enwedig y trydydd sector, gan alluogi sefydliadau i deilwra adnoddau i anghenion lleol. Mae'n bwysig bod y gwaith craffu angenrheidiol sy'n cyd-fynd ag unrhyw gynllun cyllido cyhoeddus yn parhau.
- Gallai sgwrs hirdymor barhaus gyda dinasyddion, cymunedau lleol, gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector a sefydliadau eraill yr effeithir arnynt arwain at well dealltwriaeth o anghenion iechyd a llesiant lleol. Mae ymgynghoriadau yn rhan bwysig o'r sgwrs hirdymor hon a gellid eu gwella drwy sicrhau eu bod yn fwy rhagweithiol, hygyrch, cynhwysol a 'hawdd eu deall' gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, arolygon a grwpiau ffocws cymunedol, rhanbarthol a chenedlaethol, yn ogystal â dulliau mwy traddodiadol. Mae angen talu sylw arbennig i estyn allan at y grwpiau sydd wedi'u datgysylltu mewn cymdeithas ar hyn o bryd.
- Gellir defnyddio cynllun y cronfeydd i hyrwyddo atal gwahaniaethu a diogelu cydraddoldeb a hawliau unigolion a chymunedau. Mae grwpiau blaenoriaeth yn cynnwys y rhai sydd wedi cael eu hanwybyddu mewn cynlluniau cyllido blaenorol, yn enwedig grwpiau anodd eu cyrraedd fel pobl hŷn, y digartref a phobl sy'n byw mewn rhannau anghysbell o Gymru, yn ogystal â grwpiau difreintiedig sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.
- Er mwyn targedu anghydraddoldeb rhanbarthol yn fwy effeithiol yng Nghymru, wrth ddyrannu cyllid gellid defnyddio ystod o ddangosyddion llesiant economaidd y tu hwnt i werth ychwanegol gros, megis lefelau incwm gwario a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.
- Oherwydd y ffaith bod y penderfynyddion iechyd a llesiant yn gorgyffwrdd ac yn rhyng-gysylltiedig, byddai'n fuddiol i gyllid rhanbarthol yn y dyfodol fabwysiadu dull integredig o fynd i'r afael â materion ar lefel gymunedol ac unigol. Mae penderfyniadau cyllido yn elwa ar gydlynu cenedlaethol yng Nghymru, gan ganiatáu i leisiau lleol cryf benderfynu sut y dylid dyrannu cyllid. Mae partneriaethau'n seiliedig ar le yn fodel addawol sy'n caniatáu gwneud penderfyniadau strategol ar lefel leol.

Atodiad 1**Gweithrediad cronfeydd strwythurol yr UE a dyraniad Cymru o'r gyllideb**

Dyrennir Cronfeydd Strwythurol yr UE ar draws rhanbarthau gan ddefnyddio Cynnyrch Mewnwladol Gros neu Werth Ychwanegol Gros y pen a'u cymharu â chyfartaledd yr UE. Er mwyn pennu swm y cyllid, caiff rhanbarthau'r UE eu categorioedd mewn tair ffordd wahanol:

- Rhanbarthau mwy datblygedig lle mae cynnyrch domestig gros y pen yn uwch na 90 y cant o gyfartaledd yr UE.
- Rhanbarthau trawsnewid lle mae cynnyrch domestig gros y pen rhwng 75 y cant a 90 y cant o gyfartaledd yr UE.
- Rhanbarthau llai datblygedig lle mae cynnyrch domestig gros y pen yn llai na 75 y cant o gyfartaledd yr UE.

Mae Cronfeydd Strwythurol yr UE yn cael arian cyfatebol gan ffynonellau cyhoeddus neu breifat eraill ac, o dan reolau'r UE fe'u dyrennir gan ddilyn yr egwyddor "ychwanegedd", hynny yw, ni ddylent gymryd lle cyllid cenedlaethol presennol. Mae hyn yn golygu bod y wlad sy'n derbyn y cyllid yn gallu ymgymryd â phrosiectau na allai ymgymryd â hwy pe bai'n dibynnu ar ei hadnoddau ei hun yn unig. Yr effaith ymarferol yw nad yw Cronfeydd Strwythurol yr UE yn talu am gost gyfan unrhyw brosiect penodol - mae'r gyfran y maent yn ei thalu yn ymwneud â lefel y cynnyrch domestig gros yn y rhanbarth, gyda'r gweddill yn cael ei dalu drwy arian cyfatebol (Senedd y DU, 2021).

O dan y cylch cyllido blaenorol 2014-2020 roedd Cymru yn gymwys i gael tua £2.1 biliwn o Gyllid Strwythurol yr UE ynghyd ag £1.1 biliwn ychwanegol o 'arian cyfatebol' gan y sectorau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus. Mae gan Gymru hyd at 2023 i ymrwymo, gwario a hawlio'r cyllid (Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2018). Mae tua £1.2 biliwn o gyllid ERDF ar gyfer ymchwil a datblygu, ar gyfer prosiectau seilwaith, megis gwella ffyrdd, ar gyfer ynni adnewyddadwy ac arbed ynni, ac ar gyfer cefnogi busnesau bach. Mae tua £860 miliwn o gyllid ESF ar gael i gefnogi datblygu sgiliau ar gyfer ieuencid ac oedolion, ar gyfer y rhai sy'n chwilio am waith a'r rhai mewn cyflogaeth (Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2018; gweler Ffigur 1).

Fel yr 'Awdurdod Rheoli', Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) sy'n gyfrifol am gyflawni'r rhaglen (Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, 2019).

Ffigur 2 FFEITHIAU ALLWEDDOL AM RAGLEN CRONFEYDD STRWYTHUROL YR UE 2014-2020

Ffynhonnell: Rheoli effaith Brexit ar Gronfeydd Strwythurol yr UE


CRONFEYDD STRWYTHUROL YR UE



= £2.1 BILIWN








= £1.1 BILIWN







		Grant UE (£m)	Arian cyfatebol (£m)	Cyfanswm (£m)
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	ESF	687.7	236.4	924.1
	ERDF	1,030.9	533.1	1,564.0
Dwyrain Cymru	ESF	173.8	179.1	352.9
	ERDF	173.8	173.7	347.5

ERDF



ESF



Mae'r ffigurau'n seiliedig ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.17

Atodiad 2
Proffil y sefydliadau a gymerodd ran a'u cynrychiolwyr

Ardal Leol A		Ardal Leol B		
Proffil y sefydliad	Rôl y cyfranogwr	Proffil y sefydliad	Rôl y cyfranogwr	
Cyff Anllywodraethol/Elusennau	Corff anllywodraethol sy'n darparu cymorth i'r trydydd sector	Prif Swyddog	Corff anllywodraethol sy'n darparu cymorth i'r trydydd sector	Prif Swyddog
	Elusen sy'n targedu digartrefedd	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Pobl Ifanc	Elusen sy'n targedu digartrefedd	Rheolwr Datblygu
		Pennaeth Codi Arian a Chyfathrebu		
		Pennaeth Dysgu, Hyfforddiant a Chyflogaeth		
	Elusen sy'n gweithio gyda grwpiau lleiafrifoedd ethnig	Pennaeth Gwasanaeth	Elusen sy'n gweithio gyda grwpiau lleiafrifoedd ethnig	Rheolwr Gwasanaethau Rhanbarthol
	Sefydliad nid er elw sy'n darparu gwasanaethau hamdden a diwylliannol	Prif Weithredwr	Sefydliad elusennol ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd	Sylfaenydd a Rheolwr
		Rheolwr Gweithrediadau		
	Elusen sy'n cefnogi pobl anabl	Rheolwr Cyflogaeth a Hyfforddiant	Elusen amgylcheddol	Rheolwr Datblygu Busnes
Asiantaeth sy'n gweithio ar gamdefnyddio sylweddau	Cydlynnydd Adfer	Corff anllywodraethol sy'n darparu cymorth i'r trydydd sector	Swyddog Prosiect	
Elusen sy'n ymdrin â diogelwch cymunedol	Prif Weithredwr			
Sefydliad Llywodraeth Leol	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Swyddog Cymorth	Rheolwr datblygu	
		Swyddog Cymorth		
	Adran Ddysgu Cyngor Bwrdeistref Sirol	Pennaeth Llesiant Cymunedol	Adran Adfywio Cyngor Bwrdeistref Sirol	Arweinydd Strategaeth a Datblygu
Gwasanaethau brys	Rheolwr Prosiect			
Sefydliadau eraill	Undeb Llafur	Swyddog Cangen	Undeb Llafur	Swyddog Cangen
	Sefydliad addysg uwch	Swyddog Llesiant a Diogelu	Sefydliad addysg uwch	Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol, y Gymraeg a Rhyngwladol
		Pennaeth Prosiectau Allanol		
		Pennaeth Gwasanaethau Llesiant a Chymorth i Ddysgwyr		
	Bwrdd Iechyd Lleol	Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd	Bwrdd Iechyd Lleol	Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Strategaeth Iechyd
Sefydliad y sector preifat	Pennaeth Polisi a Chyfathrebu	Gwasanaeth argyfwng iechyd	Arweinydd tîm / parafeddyg	
		Heddlu	Pennaeth Ansawdd ac Amrywiaeth	

Atodiad 3 Holiadur dros y ffôn

Testun Rhagarweiniol

Bydd y testun isod yn cael ei ddarllen i gyfranogwyr cyn dechrau'r holiadur 1af

Diolch i chi am gytuno i gymryd rhan yn ein hymchwil i'r effeithiau ar iechyd a llesiant cymunedau lleol yn Ardal A/Ardal B yn sgil Brexit, ac yn fwy penodol yn sgil colli mynediad at gronfeydd sy'n cefnogi ardaloedd lleol, megis Cronfeydd Strwythurol yr UE.

Mae tri diben i'n hymchwil. Yn gyntaf, hoffem gael dealltwriaeth gyffredinol o farn pobl ynghylch rôl a phwysigrwydd presennol neu ddiweddar Cronfeydd Strwythurol yr UE ar iechyd a llesiant, drwy adfywio cymunedau yng Nghymru neu drwy helpu i ryddhau pobl o dlodi. Yn ail, rydym yn ceisio barn ar yr effaith/effeithiau tebygol ar bobl a chymunedau ar ôl i'r cyllid ddod i ben. Yn drydydd, rydym yn ceisio meithrin gwell dealltwriaeth o sut y gallai unrhyw gyllid yn y dyfodol gefnogi iechyd a llesiant mewn cymunedau lleol.

Bydd ein hymchwil yn cynnwys tair rownd o gwestiynau. Holiadur dros y ffôn fydd y rhan gyntaf, a bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi (a'u gwneud yn ddienw). Bydd hwn wedyn yn cael ei ddefnyddio i lywio gweithdy cyfranogol [lleoliad/dyddiad] lle y bydd ymatebion i'r holiadur yn cael eu harchwilio'n fanylach. Yn olaf, ar ôl y gweithdy byddwn yn gofyn i ymatebwyr lenwi'r holiadur gwreiddiol eto i weld a yw eu barn wedi newid.

- Rhowch wybod i ni os oes unrhyw wybodaeth nad ydych am i ni ei defnyddio yn y gweithdy neu yn yr adroddiad terfynol. Ni fydd dim y byddwch yn ei ddweud wrthym heddiw yn cael ei rannu ag unrhyw un y tu allan i'r tîm ymchwil, ac ni fydd unrhyw beth yn cael ei briodoli i chi yn ôl eich enw.
- Os na allwch ateb unrhyw un o'r cwestiynau yn llawn neu'n rhannol, gallwch, os dymunwch, ddarparu rhagor o wybodaeth ar ôl y cyfweliad.
- A ydych yn deall y gweithdrefnau cyffredinol y byddwn yn eu defnyddio i wneud yn siŵr y bydd unrhyw wybodaeth yr ydym ni fel ymchwilwyr yn ei chasglu amdanoch yn ystod y cam cyntaf hwn o'r ymchwil yn aros yn gyfrinachol?
- A ydych yn deall na allwn warantu cyfrinachedd llwyr gwybodaeth y byddwch yn ei rhannu gyda ni yn ail gam yr ymchwil yn ystod y drafodaeth grŵp?
- A yw'n glir i chi y gallwch roi'r gorau i gymryd rhan yn yr astudiaeth ar unrhyw adeg?
- Yn dilyn y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gynharach drwy e-bost ar ddiben a dull yr astudiaeth a'ch atebion cadarnhaol i'r cwestiynau blaenorol, a fyddechystal â chadarnhau eich bod yn cydsynio'n wirfoddol i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon?
- Os nad oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, rwy'n awgrymu ein bod yn dechrau'r cyfweliad a fydd yn cymryd tua 30 - 45 munud.

YR HOLL GYFRANOGWYR: CHI A'CH SEFYDLIAD

1. Allwch chi ddisgrifio'ch sefydliad yn gryno?
2. Beth yw eich rôl yn y sefydliad?
3. A yw'r materion cymdeithasol a/neu economaidd yn Ardal A/Ardal B yn agwedd bwysig ar eich swydd? (ymhelaethwch yn fyr ar eich ateb)

Rhannol bwysig	Eithaf pwysig	Pwysig	Pwysig iawn
----------------	---------------	--------	-------------

4. O edrych ar y rhestr o'r grwpiau poblogaeth y gwnaethom ei hanfon atoch yn flaenorol, allech chi ddweud wrthyf pa rai y mae eich sefydliad yn eu targedu ar hyn o bryd?
5. O edrych ar y rhestr o Bendefynyddion Cymdeithasol Iechyd y gwnaethom ei hanfon atoch yn flaenorol, allech chi ddweud wrthyf pa rai y mae eich sefydliad yn mynd i'r afael â nhw ar hyn o bryd? (Nodwch)

(GWELER ATODIAD I AM DABLAU POBLOGAETH/PENDERFYNFYDDION CYMDEITHASOL IECHYD)

6. Allech chi ddisgrifio'n gryno yr effaith y mae eich sefydliad wedi'i chael neu y disgwylir iddo ei chael ar wella iechyd a llesiant y boblogaeth/poblogaethau yr ydych yn eu gwasanaethu yn Ardal A/Ardal B? (ymhelaethwch yn fyr ar eich ateb)
7. Ydy eich sefydliad neu unrhyw rai o'i weithgareddau neu brosiectau yn cael eu cyllido ar hyn o bryd gan Gronfeydd Strwythurol yr UE neu wedi cael cyllid yr UE o'r cynllun hwn yn y gorffennol?

Ydy, ewch i gwestiwn 8

Nac ydy, ewch i gwestiwn 16

AR GYFER SEFYDLIADAU SY'N DERBYN CYLLID O GRONFEYDD STRWYTHUROL YR UE AR HYN O BRYD

8. Allech chi ddisgrifio'n gryno ddiben y cyllid a gawsoch o Gronfeydd Strwythurol yr UE?
9. Tua faint oedd/yw'r cyllid cyffredinol o Gronfeydd Strwythurol yr UE?

£0 – £1,000,000	£1,000,000 – £2,000,000	£2,000,000 – £5,000,000	Mwy na £5,000,000
-----------------	-------------------------	-------------------------	-------------------

10. Pa gyfran o gyfanswm y cyllid ar gyfer prosiect neu weithgareddau cyffredinol y sefydliad oedd neu sy'n cael arian cyfatebol neu eu cyd-ariannu gan Gronfeydd Strwythurol yr UE?
11. Pa sefydliad(au) a/neu unigolion a ddarparodd y gyfran arall o'r cyllid?
12. Beth yw cyfanswm bras yr arian cyfatebol neu'r cyd-gyllid o Gronfeydd Strwythurol yr UE (mewn £oedd)? (os na ellir canfod y wybodaeth hon o'r atebion blaenorol)
13. Yn gyffredinol, allech chi ddisgrifio profiad cyffredinol eich sefydliad gyda Chronfeydd Strwythurol yr UE o ran y ffordd maen nhw'n cael eu gweinyddu? (ymhelaethwch yn fyr ar eich ateb)

Negyddol iawn	Gweddol negyddol	Ychydig yn negyddol	Ychydig yn gadarnhaol	Gweddol gadarnhaol	Cadarnhaol iawn
---------------	------------------	---------------------	-----------------------	--------------------	-----------------

14. Ydych chi wrthi'n chwilio am ffynonellau cyllid eraill ar gyfer y prosiect hwn neu brosiectau eraill yn y dyfodol, neu'n bwriadu gwneud hynny, ar ôl i Gronfeydd Strwythurol yr UE ddod i ben? (ymhelaethwch)
15. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ffynonellau cyllido eraill ar gyfer sefydliadau fel eich un chi, neu sefydliadau eraill yn Ardal B/Ardal A?

Ewch i gwestiwn 18

AR GYFER SEFYDLIADAU NAD YDYNT YN DERBYN CYLLID YR UE

16. Ydy eich sefydliad wedi'i gyllido'n rhannol neu'n llawn drwy grant ar hyn o bryd?
17. Ydy'r cyllid hwn yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol (neu'n gyfuniad o'r rhain)?

Ewch i gwestiwn 18

YR HOLL GYFRANOGWYR: CRONFEYDD STRWYTHUROL YR UE – CYFFREDINOL

Nod y set nesaf o gwestiynau yw ymchwilio i'ch barn, yn gyffredinol, am sut y mae Cronfeydd Strwythurol yr UE wedi cael eu defnyddio yn Ardal A/Ardal B.

DS. Pwysleiswch y newid pwyslais o rôl sefydliadol i farn bersonol.

18. Pa mor gyfarwydd ydych chi â phwrpas a chwmpas Cronfeydd Strwythurol yr UE yn gyffredinol (ymhelaethwch yn fyr ar eich ateb)

Ddim yn gyfarwydd o gwbl	Rhannol gyfarwydd	Gweddol gyfarwydd	Cyfarwydd iawn
--------------------------	-------------------	-------------------	----------------

19. Ydych chi'n meddwl bod Cronfeydd Strwythurol yr UE wedi bod yn llwyddiannus o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau cymdeithasol ac economaidd yn Ardal A/Ardal B, yn enwedig y rhai a allai effeithio ar iechyd a llesiant fel cynyddu sgiliau neu wella'r economi leol? (ymhelaethwch yn fyr ar eich ateb, rhowch enghreifftiau lle bo modd)

Ddim yn llwyddiannus o gwbl	Wedi cael peth llwyddiant	Wedi bod yn weddol lwyddiannus	Wedi bod yn llwyddiannus iawn
-----------------------------	---------------------------	--------------------------------	-------------------------------

DS. Ar gyfer Cwestiynau 20 a 21 bydd y cyfranogwyr wedi cael opsiynau cyn y cyfweiliad felly nid oes angen paratoi'r holl opsiynau yn llawn.

20. Yn eich barn chi, pa effaith y mae Cronfeydd Strwythurol yr UE wedi'i chael ar y grwpiau poblogaeth canlynol yn Ardal A/Ardal B? (ymhelaethwch yn fyr ar eich ateb).

Grwpiau sy'n gysylltiedig â Rhyw/Rhywedd

Benywod

Effaith negyddol iawn	Effaith negyddol	Rhywfaint o effaith negyddol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol iawn	Ddim yn gwybod
-----------------------	------------------	------------------------------	-------------	--------------------------------	--------------------	-------------------------	----------------

Gwrywod

Effaith negyddol iawn	Effaith negyddol	Rhywfaint o effaith negyddol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol iawn	Ddim yn gwybod
-----------------------	------------------	------------------------------	-------------	--------------------------------	--------------------	-------------------------	----------------

Pobl Drawsrywiol

Effaith negyddol iawn	Effaith negyddol	Rhywfaint o effaith negyddol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol iawn	Ddim yn gwybod
-----------------------	------------------	------------------------------	-------------	--------------------------------	--------------------	-------------------------	----------------

Arall (*noder*)

Grwpiau sy'n gysylltiedig ag oedran (*Gellid nodi'r ystod oedran y dylid rhoi ystyriaeth arbennig iddi*)

Plant a phobl ifanc

Effaith negyddol iawn	Effaith negyddol	Rhywfaint o effaith negyddol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol iawn	Ddim yn gwybod
-----------------------	------------------	------------------------------	-------------	--------------------------------	--------------------	-------------------------	----------------

Blynyddoedd cynnar (gan gynnwys beichiogrwydd a blwyddyn gyntaf bywyd)

Effaith negyddol iawn	Effaith negyddol	Rhywfaint o effaith negyddol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol iawn	Ddim yn gwybod
-----------------------	------------------	------------------------------	-------------	--------------------------------	--------------------	-------------------------	----------------

Poblogaeth oedolion cyffredinol

Effaith negyddol iawn	Effaith negyddol	Rhywfaint o effaith negyddol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol iawn	Ddim yn gwybod
-----------------------	------------------	------------------------------	-------------	--------------------------------	--------------------	-------------------------	----------------

Pobl hŷn

Effaith negyddol iawn	Effaith negyddol	Rhywfaint o effaith negyddol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol iawn	Ddim yn gwybod
-----------------------	------------------	------------------------------	-------------	--------------------------------	--------------------	-------------------------	----------------

Arall (*noder*)

Grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm

Economaidd anweithgar

Effaith negyddol iawn	Effaith negyddol	Rhywfaint o effaith negyddol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol iawn	Ddim yn gwybod
-----------------------	------------------	------------------------------	-------------	--------------------------------	--------------------	-------------------------	----------------

Pobl ar incwm isel

Effaith negyddol iawn	Effaith negyddol	Rhywfaint o effaith negyddol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol iawn	Ddim yn gwybod
-----------------------	------------------	------------------------------	-------------	--------------------------------	--------------------	-------------------------	----------------

Pobl na allant weithio oherwydd salwch

Effaith negyddol iawn	Effaith negyddol	Rhywfaint o effaith negyddol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol iawn	Ddim yn gwybod
-----------------------	------------------	------------------------------	-------------	--------------------------------	--------------------	-------------------------	----------------

Y rhai sy'n ddi-waith/heb waith

Effaith negyddol iawn	Effaith negyddol	Rhywfaint o effaith negyddol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol iawn	Ddim yn gwybod
-----------------------	------------------	------------------------------	-------------	--------------------------------	--------------------	-------------------------	----------------

Arall (*noder*)

Grwpiau sydd â risg uwch o ddioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall

Grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig (*nodwch*)

Effaith negyddol iawn	Effaith negyddol	Rhywfaint o effaith negyddol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol iawn	Ddim yn gwybod
-----------------------	------------------	------------------------------	-------------	--------------------------------	--------------------	-------------------------	----------------

Gofalwyr

Effaith negyddol iawn	Effaith negyddol	Rhywfaint o effaith negyddol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol iawn	Ddim yn gwybod
-----------------------	------------------	------------------------------	-------------	--------------------------------	--------------------	-------------------------	----------------

Cyn-droseddwyr

Effaith negyddol iawn	Effaith negyddol	Rhywfaint o effaith negyddol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol iawn	Ddim yn gwybod
-----------------------	------------------	------------------------------	-------------	--------------------------------	--------------------	-------------------------	----------------

Sipsiwn a Theithwyr

Effaith negyddol iawn	Effaith negyddol	Rhywfaint o effaith negyddol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol iawn	Ddim yn gwybod
-----------------------	------------------	------------------------------	-------------	--------------------------------	--------------------	-------------------------	----------------

Y digartref

Effaith negyddol iawn	Effaith negyddol	Rhywfaint o effaith negyddol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol	Effaith gadarnhaol iawn	Ddim yn gwybod
-----------------------	------------------	------------------------------	-------------	--------------------------------	--------------------	-------------------------	----------------

Iaith/diwylliant (*nodwch*)

